Cyngor Sir Fynwy

Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

2022- 2026

## 1 Cyflwyniad:

1.1.1 Rhaid i Gyngor Sir Fynwy ddatblygu Strategaeth ('y Strategaeth' Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) bob pedair blynedd, gan adolygu'r strategaeth bob dwy flynedd, sydd yn amlinellu cyfeiriad strategol gwasanaethau cymorth y Cyngor sydd yn ymwneud gyda thai.

1.1.2 Mae dyletswydd ar y Cyngor o dan Ddeddf Digartrefedd (Cymru) 2014 i lunio strategaeth ddigartrefedd am bedair blynedd. Mae'r ddogfen hon felly yn cynnig trosolwg strategol sengl o waith y Cyngor wrth fynd i'r afael gyda digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai o fewn Sir Fynwy. Mae'r ddogfen yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu'r trawsnewid sydd angen er mwyn gwella ansawdd ac argaeledd llety i'r digartref, a dylai ddigartrefedd fod yn rhywbeth dros dro ac ni ddylai gael ei ail-adrodd a dylid symud tuag at Ailgartrefu Brys, fel sydd wedi ei bennu gan Gyfnod 2 Canllaw Cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Digartrefedd a Chymorth yn Ymwneud â Thai.

1.1.3 Mae'r Strategaeth yn dilyn adolygiad o'r data digartrefedd ac asesiad o anghenion cynhwysfawr a oedd yn cynnwys ymarferion ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a chyfarfod grŵp ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth a mudiadau partner.

1.1.4 Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r camau gweithredu allweddol y bydd y Cyngor yn gweithredu yn y tymor canolig. Mae'n cynnig cyfeiriad ac ymdeimlad o'r hyn sydd yn bwysig dros y pedair mlynedd nesaf wrth fynd i'r afael gyda heriau digartrefedd a thrawsnewid gwasanaethau ar gyfer y digartref yn Sir Fynwy.

## 1.2 Pwrpas y Strategaeth

1.2.1 Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu cyfeiriad strategol sengl ar gyfer digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai yn Sir Fynwy ar gyfer y pedair blynedd nesaf (2022 - 2026), a'n cwrdd â gofynion statudol y Cyngor o dan Ran 2, Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer digartrefedd yn Sir Fynwy (gweler Rhan 3\) ar gyfer y Cyngor a'r mudiadau partner.

1.2.2 Mae'r Strategaeth hon yn adolygu a'n diweddaru elfen Sir Fynwy o Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gwent a sefydlwyd yn 2018, ac mae'r Cyngor yn rhan o hyn. Mae'r Strategaeth hefyd yn adolygu a'n adlewyrchu Cynllun Pontio Digartref y Cyngor a luniwyd yn gynnar yn 2021, fel sydd ei angen gan Ganllaw Cyfnod 2 Llywodraeth Cymru.

1.2.3 Mae'r Strategaeth yn nodi a'n amlinellu'r themâu a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid er mwyn atal digartrefedd lle bo'n bosib drwy ymyrraeth gynnar; ac os nad oes modd atal digartrefedd, bydd yn rhywbeth prin, yn digwydd dros dro ac ni fydd yn cael ei ail-adrodd.

1.2.4 Mae'r Strategaeth yn ceisio cyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i'r weledigaeth fod Sir Fynwy yn:

- lle uchelgeisiol sydd yn llawn o obaith a mentergarwch
- lle teg lle y mae eich teulu yn ddiogel
- lle cynaliadwy lle y mae pobl yn gofalu am ei gilydd
- lle yr ydych yn falch o alw'n gartref

1.2.5 Mae egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol yn ganolog i weledigaeth y Cyngor. Mae cymdeithas sydd yn gymdeithasol gyfiawn yn un sydd yn parchu hawliau ac urddas yn gydradd, lle y mae pob un dinesydd yn medru cymryd rhan ac nid yw cyfleoedd bywyd neb yn cael eu heffeithio am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth bersonol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod gwasanaethau digartrefedd, ar lefel unigol a gyda'i gilydd, yn meddu ar rôl bwysig iawn yn y cyd-destun hwn.

1.2.6 Mae datblygiad y Strategaeth yn sicrhau bod yna gysondeb rhwng digartrefedd a Rhaglen Grant Cymorth Tai y Cyngor ynghyd â'r adolygiad parhaus, y datblygu a chomisiynu'r rhaglen sydd yn cael ei lywio gan ddigartrefedd yn y Sir. Yn hyn o beth, mae'r Strategaeth yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen Grantiau Cymorth Tai ar gyfer y 4 mlynedd nesaf.

## 1.3 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

### 1.3.1 Cyd-destun cenedlaethol

1.3.2 Roedd nifer o ddeddfau, cynlluniau cenedlaethol a pholisïau wedi llywio'r gwaith o ddrafftio'r Strategaeth. Y ddau ddarn allweddol oedd y deddfau canlynol.

### 1.3.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**1.3.4** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru er mwyn creu Cymru y mae pawb am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

1.3.5 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor y penderfyniadau y maent yn gwneud ac i weithio yn well gyda'i gilydd er mwyn atal materion o anghydraddoldeb fel tlodi ac afiechyd. Dylai'r sawl sydd yn gwneud penderfyniadau osod hyn yn erbyn yr amcanion llesiant sydd wedi eu cyflwyno gan y Ddeddf.

I. Cymru lewyrchus
II. Cymru gydnerth
III. Cymru iachach
IV. Cymru sy'n fwy cyfartal
V. Cymru o gymunedau cydlynus
VI. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
VII. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

1.3.6 Mae atal digartrefedd yn meddu ar rôl bwysig o ran cyrraedd yr amcanion llesiant, yn enwedig amcanion ii i iv.

### 1.3.7 Deddf Tai (Cymru) 2014

1.3.8 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y rhai sydd mewn risg o ddigartrefedd yn medru derbyn help ar y cyfle cyntaf posib. Mae atal digartrefedd wedi dod yn ddyletswydd statudol o dan Adran 66 a 73 o'r Ddeddf. Mae'r ddyletswydd i i atal hefyd yn disodli'r maen prawf blaenorol a oedd yn rhoi pwyslais ar "flaenoriaeth"m a oedd yn golygu bod nifer o aelwydydd yn methu cael mynediad at unrhyw fath o gymorth. Mae cryfhau'r gwaith o atal digartrefedd a'n ceisio dod o hyd i ddatrysiadau posib yn ganlyniad sydd yn deillio o'r strategaeth.

1.3.9 Er mwyn caniatáu awdurdodau lleol i gwrdd â'i ddyletswyddau statudol, mae'r Awdurdod yn caniatáu awdurdodau lleol i ddefnyddio'r sector rhentu preifat ar gyfer sicrhau llety addas, Yn hyn o beth, mae'r Cyngor wedi sefydlu 'Monmouthshire Lettings' sawl blwyddyn yn ôl. Canlyniad allweddol yw datblygu'r cwmni ymhellach er mwyn annog mwy o landlordiaid preifat i gynnig eu tai i'r Cyngor.

1.3.10 Roedd y Deddfau a Pholisïau Perthnasol a ystyriwyd wrth ddatblygu'r Strategaeth fel a ganlyn

- Cynllun Gweithredu Cysgu Allan Llywodraeth Cymru 2018-20.
- Canllawiau Practis Grantiau Cymorth Tai
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**1.3.11 Cam 2 – Canllawiau Cynllunio ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth yn ymwneud gyda Thai**

1.3.12 Ym Mehefin 2020 ac yn sgil y pandemig Covid, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw digartref Cam 2. Wedi gofyn i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i amddiffyn unigolion a chymunedau drwy gefnogi pobl sydd yn wynebu digartrefedd drwy eu gosod mewn llety diogel a sefydlog, mae'r canllaw yma yn gofyn i awdurdodau lleol i sicrhau bod pawb sydd yn cael eu gosod mewn llety dros dro yn cael eu symud i lety mwy hirdymor.

1.3.13 At hyn, mae'r canllaw yn mynegi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd a pholisi digartref er mwyn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu fel bod y rhai sydd yn ddigartref yn rhan o system sydd yn ffocysu ar ataliaeth, ac os yw hyn yn methu, mae achosion o ddigartrefedd yn brin, dros dro ac nid yw'n cael ei ail-adrodd. Yr hyn sydd wrth wraidd y weledigaeth yw 'Ailgartrefu Brys.'

**1.3.14 Canllaw Ail-gartrefu Brys**

1.3.15 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod atal digartrefedd yn gorfod parhau'n brif ffocws er mwyn sicrhau cyfradd uwch o lwyddiant wrth gadw pobl yn eu cartrefi.

1.3.16 Os nad yw ataliaeth wedi llwyddo, mae Ailgartrefu Brys yn hanfodol er mwyn atal effaith digartrefedd a'n sicrhau nad yw'n cael ei ailadrodd. Mae'r buddion o gael llety diogel, sefydlog a hunan-gynaliadwy ar gyfer pobl sydd wedi profi neu mewn peryg o ddigartrefedd yn anhraethol bwysig. Dylai'r rhan fwyaf o bobl sydd yn profi digartrefedd dderbyn y fath gartrefi cyn gynted ag sydd yn bosib. Bydd hyn yn helpu osgoi effeithiau digartrefedd neu gyfnodau hir mewn lleoliadau brys neu dros dro tra hefyd yn parhau'n ddigartref. (Mae hyn yn her benodol i'r Cyngor ar hyn o bryd). Mae ailgartrefu brys yn seiliedig ar ddull systemig o ddeall pa dai sydd eu hangen er mwyn cwrdd ag anghenion lleol, sut y mae'r tai i'w hariannu, datblygu a'u clustnodi ar gyfer pobl sydd yn ddigartref. Mae hyn, pan fydd yn cael ei weithredu'n briodol, yn golygu y bydd yr angen am lety dros dro yn lleihau, a lle bod angen y fath lety, bydd am gyfnodau mwy byr na sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

1.3.17 Blaenoriaeth ar gyfer y Strategaeth yw datblygu Cynllun Ailgartrefu Brys erbyn Mehefin 2022.

## 1.4 Cyd-destun Lleol/Rhanbarthol

### 1.4.1 Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent

1.4.2 Yr wyth aelod statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent yw'r pum awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae mudiadau eraill hefyd wedi eu gwahodd, ac mae'r rhain yn cynnwys Heddlu Gwent, Cymdeithasau Tai Lleol, Melin Homes a mudiadau gwirfoddol sydd yn cael eu cynrychioli fel rhan o'r Gwent Association of Voluntary Organisations.

1.4.3 Rhaid i'r Bwrdd baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal a chytuno ar flaenoriaethau er mwyn mynd i'r afael gyda'r rhain.

### 1.4.4 Cynllun Busnes Corfforaethol Cyngor Sir Fynwy 2017 / 2022

1.4.5 Mae'n amlinellu cyfeiriad eglur ar gyfer y Cyngor a'r adnoddau sydd angen er mwyn cyflawni hyn. Mae'n llywio ac yn gosod set gyfan o gynlluniau caniatáu a chyflenwi sydd yn seiliedig ar Bobl; Digidol; Economi; Cwsmeriaid, Tir ac Asedau.

1.4.6 Mae'r cynllun yn amlinellu ein Pum Amcan Trefniadol. Mae'r rhain yn ymgorffori'r pedwar Canlyniad Llesiant. Mae gan y gwasanaethau digartrefedd gyfraniad pwysig i'w wneud i'r mwyafrif isod:

I. Y dechrau gorau posib mewn bywyd
II. Sir sy'n ffynnu ac wedi ei chysylltu'n dda
III. Manteisio i'r eithaf ar botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
IV. Llesiant gydol oes
V. Cyngor sydd yn ffocysu ar y dyfodol

**1.4.7 Pobl, Lle a Ffyniant: Strategaeth ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol 2017 – 2022**

1.4.8 Nod y Stratgaeth Cyfiawnder Cymdeithasol yw ‘Gosod Cyfiawnder Cymdeithasol’ wrth wraidd yr hyn a wnawn.

1.4.9 Mae’r Ymrwymiadau yn y Strategaeth yn ffocysu ar y canlynol:

- Caniatáu cymunedau gofalgar ac sydd wedi cysylltu i gefnogi pobl i fyw’n annibynnol;
- Darparu cyfiawnder cymdeithasol, ffyniant gwella a lleihau anghydraddoldeb;
- Caniatáu gwasanaethau lleol gwell drwy gefnogi gwirfoddolwyr a gweithgarwch cymdeithasol.

1.4.10 Ac mae wedi ei gysoni gyda blaenoriaethau a dyheadau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau;
- Cefnogi a’n amddiffyn pobl fregus;
- Ystyried ein heffaith ar yr amgylchedd.

**1.4.11 Strategaeth Gwent ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023**

**1.4.12** Mae Strategaeth Gwent ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023 yn amlinellu’r chwe Blaenoriaeth Strategol a fydd yn cyfrannu at atal trais a cham-drin, amddiffyn dioddefwyr a'n rhoi cymorth i’r sawl sydd wedi eu heffeithio**.**

**1.4.13 Rhaglen Grant Cymorth Tai**

1.4.14 Mae’r Rhaglen Grant Cymorth Tai (RhGCT) yn rhaglen ymyrraeth gynnar sydd yn ariannu ystod eang o gymorth sydd yn ymwneud gyda thai a gwasanaethau digartrefedd i bobl fregus ar draws Gwent, ac mae’n cefnogi gweithgarwch sydd yn atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa tai neu’n helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a chadw gafael ar lety.

1.4.15 Mae Rhaglen GCT Sir Fynwy yn cefnogi’r weledigaeth genedlaethol ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai, sef:

“Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, ac mae pawb yn meddu ar gartref diogel lle y mae modd iddynt ffynnu a byw bywyd llawn, actif ac annibynnol”.

1.4.16 At hyn, bydd y Cyngor yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cydweithredu Grant Cymorth Tai Rhanbarthol Gwent er mwyn medru nodi unrhyw anghenion a rennir a'n cyflawni'r amcanion a rennir. Amcanion strategol Cydweithredu Grant Cymorth Tai Rhanbarthol Gwent yw:

- Darparu gwasanaethau safon uchel, effeithiol ac ymatebol.
- Ehangu ein dylanwad drwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.
- Cryfhau ymgysylltu a hygyrchedd.

## 1.5 Strategaeth y Cyngor ar Haf 2022 – Looking Ahead, Delivering Now

### 1.5.1 Y Diben

Yn Rhagfyr 2021, roedd y Cyngor wedi adolygu ei Strategaeth hyd at Haf 2022 ac wedi adolygu ei bwrpas. Mae'r Strategaeth yn cyfrannu at Strategaeth y Cyngor 'Looking Ahead, Delivering Now Strategy to Summer 2022' lle y mae'r Cyngor am sicrhau bod Sir Fynwy yn:

- lle uchelgeisiol sydd yn llawn o obaith a mentergarwch
- lle teg lle y mae eich teulu yn ddiogel
- lle cynaliadwy lle y mae pobl yn gofalu am ei gilydd
- lle yr ydych yn falch o alw'n gartref

1.5.2 Mae Strategaeth y Cyngor yn seiliedig ar ymdeimlad clir o bwy ydym fel awdurdod lleol. Mae'r Cyngor yn disgwyl bod y bobl a'r asiantaethau partner sydd yn gweithio gyda ni yn rhannu hyn a bod hyn oll yn amlwg yn y ffordd yr ydym yn gweithio a'n ymgysylltu gyda'n cymunedau. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu pwy ydym, sut ydym yn gwneud pethau a sut ydym yn trawsnewid digartrefedd:

- Bod yn agored
- Hyblygrwydd
- Tegwch
- Gwaith tîm
- Caredigrwydd

1.5.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i atal a lleihau digartrefedd, mynd i'r afael gyda'r prif achos o ddigartrefedd a chefnogi'r rhai hynny sydd mewn angen. Yn yr achosion hynny lle nad oes modd i ni atal digartrefedd, bydd y rhain yn achosion prin, dros dro ac ni fyddant yn cael eu hail-adrodd.

### 1.5.4 Yr Egwyddorion

- Darparu gwasanaeth o ansawdd sydd yn hygyrch ac yn sicrhau bod person yn derbyn cyngor a chymorth da ar y cyfle cynharaf posib er mwyn atal digartrefedd a diogelu pobl rhag niwed.
- Lleihau anghydraddoldeb drwy hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chymunedol.
- Manteisio i'r eithaf ar adnoddau drwy wella'r gwaith o weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn delio gyda digartrefedd.

## 2 Asesu o Anghenion:

2.1.1 Y Broses o Asesu Anghenion.

Roedd y broses asesu anghenion yn cynnwys dadansoddi dogfennau polisi allweddol, ymchwil ystadegol a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ymarferion ymgynghori a holiadur.

2.1.2 Roedd y Datganiad o Anghenion yn ffocysu ar y meysydd canlynol:

- Yr amgylchedd ehangach lle y mae gwasanaethau digartrefedd yn cael eu darparu;
- Y llety sydd ar gael er mwyn atal a lliniaru digartrefedd;
- Y galw am wasanaethau digartrefedd a thueddiadau – blaenorol, cyfredol a'r lefel o ddigartrefedd yn y dyfodol;
- Prif achos o ran digartrefedd;
- Yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn atal digartrefedd a'n cefnogi'r rhai hynny sydd yn ddigartref a'r bylchau posib;
- Meysydd posib ar gyfer creu gwelliannau; a
- Yr adnoddau a ddisgwylir gan y Cyngor er mwyn medru darparu gwasanaethau digartrefedd yn y dyfodol.

2.1.3 Y dulliau a ddefnyddiwyd i lywio'r Datganiad o Anghenion oedd:

- Adolygiad bwrdd gwaith o lenyddiaeth a data ystadegol allweddol;
- Grwpiau ffocws a thrafodaethau grŵp gyda'r staff perthnasol sy'n allweddol o ran paratoi a gweithredu gwaith cynllunio i atal digartrefedd);
- Cynhaliwyd dadansoddiadau SWOT (Strengths, Weaknesses, Opportunities and Threats) a PESTL (Political, Economic, Social, Technology and Legislation);
- Adborth drwy gyfrwng holiadur rhanddeiliaid gan ddarparwyr gwasanaeth, partneriaid a rhanddeiliaid eraill;
- Arolygon gyda phobl sydd wedi profi digartrefedd a'r gwasanaethau perthnasol yn uniongyrchol;
- Ymgysylltu'n uniongyrchol gyda grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Data empirig sydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn llywio'r strategaeth a'r dystiolaeth sydd angen: data WHO12, prosbectws data LHMA, data Iechyd Meddwl gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a data Canlyniadau data (GCT).

## 2.2 Canfyddiadau Allweddol

2.2.1 Roedd dadansoddiad o ddata digartrefedd ar gyfer y cyfnod 2017 - 2021 wedi nodi'r canlynol:

- Ceisiadau
  - Mae cyfanswm y ceisiadau wedi disgyn ychydig mwy na 32% dros y 4 mlynedd ddiwethaf[1] ;
  - Mae'r nifer o aelwydydd sengl wedi parhau'n weddol sefydlog, sef tua 65.5% o'r holl geisiadau[2];
  - Mae tua 61% o aelwydydd sengl yn ddynion[3];
  - Mae tua 39% o aelwydydd sengl yn fenywod;
  - Mae plant dibynnol gan tua 29% o ymgeiswyr[4];
  - Mae 96% o'r sawl sydd mewn Llety Dros Dro yn meddu ar o leiaf un angen[5].
- Prif Ystod Oedran yr Ymgeiswyr
  - Mae tua 25% o ymgeiswyr rhwng 16 a 24 mlwydd oed[6];
  - Mae tua 4% o ymgeiswyr rhwng 16 a 17 mlwydd oed[7].
- Prif Achosion Digartrefedd (S66)
  - 30.6% o'r holl achosion yn sgil ôl-ddyledion rhent[8];
  - 30.5% o'r holl achosion yn sgil colli llety yn y sector rhentu preifat[9];
  - Tua 29% o'r holl achosion yn sgil ffrindiau a theulu yn methu lletya'r unigolyn mwyach[10].

2.2.2 Roedd yr Adolygiad Asesiad o Anghenion wedi amlygu bod Iechyd Meddwl, Pobl Ifanc, Camddefnyddio Sylweddau a diffyg llety parhaol yn faterion/themâu allweddol sydd wedi bod yn berthnasol i ddatblygiad y Strategaeth a'r ffordd y bydd angen darparu gwasanaethau digartref yn y dyfodol yn Sir Fynwy. Mae'r meysydd yma wedi eu mabwysiadu fel blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth fel bod modd mynd i'r afael gyda digartrefedd yn Sir Fynwy.

[1] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.3.1.1
[2] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.3.2.1
[3] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.3.2.3
[4] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); Ffigwr 26
[5] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 9.3.3.1
[6] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.3.4.2
[7] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); Ffigwr 29
[8] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); Ffigwr 31
[9] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.5.3
[10] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); Ffigwr 34

### 2.2.3 Iechyd Meddwl

2.2.4 Mae'r Datganiad o Anghenion wedi arddangos fod yna alw sylweddol am gymorth materion Iechyd Meddwl ymhlith y sawl sydd yn wynebu neu'n dod yn ddigartref[11]. Roedd arolwg o'r cymorth sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy gyllid GCT ynghyd ag ansawdd a lefel yr angen yn amlygu'r llety a'r gagendor o ran cymorth sydd yn wynebu'r sawl sydd ag anghenion iechyd meddwl. Mae hyn yn cefnogi'r dystiolaeth anecdotaidd a godwyd gan randdeiliaid ynglŷn â'r rhwystrau sydd yn wynebu'r grŵp hwn[12]. Mae'r data yn awgrymu bod Iechyd Meddwl yn debygol iawn o fod yn ffactor sylweddol ymhlith y sawl sydd yn wynebu problemau gyda thai a digartrefedd[13].

2.2.5 Er mwyn diwallu'r anghenion yma yn effeithiol, bydd Tîm Cymorth Tai Sir Fynwy angen edrych at ehangu'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sydd yn rhan o wasanaethau lety. Yn ogystal â chaffael a chomisiynu gwasanaethau, bydd hyn yn cynnwys meithrin perthynas gyda'r timau Iechyd Meddwl fel bod pobl yn medru cael mynediad at y driniaeth sydd angen - rhywbeth sydd wedi ei godi'n anecdotaidd fel rhwystr tuag at ddarparu cymorth priodol ac atal digartrefedd.

### 2.2.6 Pobl ifanc

2.2.7 Ar gyfer poblogaeth sydd yn heneiddio ar y cyfan, mae gorgynrychiolaeth gan Gyngor Sir Fynwy o bobl ifanc (16-24) o fewn y boblogaeth sydd yn derbyn cymorth tai, yn enwedig mewn Llety Dros Dro[14]. Nid yw bod yn berson ifanc o reidrwydd yn golygu bod angen cymorth, ond pan gaiff hyn ei gymysgu gydag anghenion eraill, mae'n medru ychwanegu lefel o gymhlethdod a bod yn fregus, sydd yn cyfateb i'r cymorth sydd ei angen. Mae Sir Fynwy yn comisiynu dau wasanaeth i bobl ifanc, un ar gyfer darparu llety â chymorth a'r llall yw Emphasis.[15].

2.2.8 Wrth edrych ar y lefel o angen ymhlith pobl ifanc mewn Llety Dros Dro, mae yna gyfran uwch o'r rhai hynny sydd ag anghenion Uchel a Dwys[16]. Nid oes digon o gapasiti gan y gwasanaethau cyfredol ac nid ydynt yn medru cynnig cymorth sydd yn delio gyda mwy na lefel ganolig o anghenion. Mae'r data o'r asesiad anghenion yn dangos bod Sir Fynwy angen ehangu'r nifer o unedau ar gyfer pobl ifanc a chapasiti'r gwasanaethau i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion uchel a chymhleth.

---

[11] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.2.3, 10.3.3.1, 10.4.1.2
[12] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.4.1.2
[13] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.3.1, 10.4.1.2.
[14] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.5.7
[15] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.2.4
[16] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.5.8

### 2.2.9 Camddefnyddio Sylweddau

2.2.10 Yn yr asesiad o anghenion ar gyfer y sawl mewn Llety Dros Dro, materion yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau yw'r angen pennaf ac mae wedi ei gorgynrychioli pan gaiff ei gymharu gyda'r data cymorth ehangach[17]. Mae GCT y Cyngor ar hyn o bryd yn recriwtio am Weithiwr Cymorth GDAS ar gyfer Llety Dros Dro. Mae'r data yn awgrymu fod y sawl sydd yn profi'r problemau hynny fel yr angen pennaf yn fwy tebygol o fod yn ddigartref ac angen llety brys a dros dro[18].

2.2.11 Yn debyg i'r bobl ifanc sydd yn rhan o'r asesiad o anghenion ar gyfer Llety Dros Dro, mae yna gyfran uwch o'r rhai hynny sydd ag Anghenion Uchel a Dwys ymhlith y sawl sydd ag angen pennaf o Gamddefnyddio Sylweddau[19]. Ar hyn o bryd, nid oes yna lwybr tai eglur ar gyfer y cleientiaid yma ac nid oes yna lety â chymorth priodol sydd yn medru cynnig cymorth priodol.

### 2.2.12 Llety Addas

2.2.13 Mae yna ddiffyg tai yn Sir Fynwy ar gyfer y rhai sydd yn wynebu digartrefedd, ac mae hyn ond yn gwaethygu[20]. Mae yna ddiffyg tai o bob math ond fel sydd yn cael ei ystyried yn y data, mae mwy na hanner y ceisiadau wedi eu gwneud gan bobl sengl[21]. Mae hyn wedi creu pwysau digynsail ar eiddo un gwely drwy gydol y sir. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi, ac yn mynd i barhau, i chwilio am ddatrysiadau creadigol er mwyn ehangu'r stoc.

2.2.14 Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Dros Dro hefyd wedi arddangos lleiafrif sylweddol o ymgeiswyr digartref gydag anghenion cymorth uchel i ddwys lle na fyddai llwybrau tai traddodiadol yn debygol o arwain at denantiaeth llwyddiannus[22]. Mae Cynllun Tai'n Gyntaf gan Gyngor Sir Fynwy, ond mae'r ddarpariaeth hon yn fach ac nid yw'n addas ar gyfer y sawl sydd â'r anghenion uchaf. Fel y nodwyd yn aml yn ystod digwyddiadau i randdeiliad, nid oes llety anghenion uchel/24 awr sydd wedi ei staffio gan y Cyngor a nodwyd fod hyn yn fwlch amlwg yn y gwasanaethau ar gyfer y sawl sydd yn ddigartref ag anghenion uchel yn Sir Fynwy[23].

### 2.2.15 Ataliaeth

2.2.16 Mae'r data sydd ar gael yn dangos fod Tîm Opsiynau Tai Sir yn meddu ar gyfradd llwyddiant o 60% ar gyfer atal digartrefedd, gan awgrymu bod mwy o le i wneud gwelliannau[24]. Mae Sir Fynwy wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn adnoddau ychwanegol er mwyn gweithio gyda'r sawl sydd mewn peryg o ddigartrefedd, ac wrth wneud hyn, mae'r Cyngor yn dysgu mwy a'n cael profiad o'r hyn sydd yn sbarduno'r fath sefyllfa. Bydd Cyngor Sir Fynwy hefyd yn ystyried ffyrdd o adnabod aelwydydd sydd mewn risg cyn bod y problemau yma yn cael eu hatgyfnerthu ac nid oes modd eu datrys.

---

[17] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.4.2.6
[18] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.4.2.6

2.2.17 Mae rhanddeiliaid wedi datgan fod gwybodaeth am y cymorth a'r gwasanaethau sydd wedi eu cynnig i'r rhai sydd mewn risg o ddigartrefedd yn medru bod yn anodd cael gafael arno. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn adolygu'r ffordd y mae'n rhannu gwybodaeth er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy mewn fformat hawdd ei darllen.

2.2.18 Mae'r angen a'r galw am ystod a math o lety digartref dros dro, sydd wedi ei gefnogi a'n barhaol, wedi cynyddu'n sylweddol o ran pobl ifanc, pobl sengl a'r rhai sydd yn profi problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, gyda chyfran uchel angen darpariaeth cymorth tai canolig i uchel, sydd y tu hwnt i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu gan GCT. Mae'r cynnydd yn y galw am o lety digartref dros dro, sydd wedi ei gefnogi a'n barhaol wedi amlygu'r pwysigrwydd o atal digartrefedd yn gyntaf ac atgyfnerthu'r angen i gryfhau'r trefniadau presennol. At hyn, mae angen adnabod datrysiadau tai parhaol yn y sector cymdeithasol a rhentu preifat. Yn olaf, mae yna angen am lety dros dro hunan-gynaliadwy ychwanegol yn unol gyda safon Atodiad D Llywodraeth Cymru) er mwyn hwyluso llai o ddefnydd o leoliadau Gwely a Brecwast a llety dros dro a rennir cyn dileu hyn yn gyfan gwbl. Mae'r canfyddiadau allweddol yma wedi ei hystyried fel rhan o'r blaenoriaethau a nodir gan CSF isod.

## 3 Blaenoriaethau strategol:

3.1.1 Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i ymrymuso ei drigolion i arwain bywydau ffyniannus, cynaliadwy. Mae hyn yn dechrau gyda llety sefydlog, priodol a chymorth effeithiol, amserol ar gyfer y sawl sydd ei angen.

3.1.2 Mae'r strategaeth yn amlinellu'r pedair blaenoriaeth allweddol y mae Cyngor Sir Fynwy wedi nodi er mwyn mynd i'r afael gyda digartrefedd a'r hyn sydd yn achosi digartrefedd, a hynny dros y pedair mlynedd nesaf a thu hwnt. Y nod yw atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac os yw'n digwydd, bydd ond yn digwydd dros dro ac ni fydd yn cael ei ail-adrodd.

[19] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.5.12
[20] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 7.5.3.1, 7.5.7.2, Ffigwr 11
[21] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.3.2
[22] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.4.2
[23] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.4.1.2
[24] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.12.1

### 3.2 Blaenoriaeth Un: Adnabod y rhai hynny sydd mewn peryg o ddigartrefedd ynghynt a'n darparu ymyriadau amserol er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd.

3.2.1 Rheswm dros y flaenoriaeth hon:

- Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi gosod dyletswyddau statudol newydd i atal neu ddelio gyda digartrefedd;
- Ymhlith rhai eraill, mae'n gam gweithredu allweddol sydd yn rhan o strategaeth y Cyngor 'Looking Ahead, Delivering Now' hyd at 2022.
- Mae yna ddyhead i symud i ddull gweithio rhagweithiol sydd yn medru adnabod ac ymateb i'r newid mewn anghenion tai yn hytrach na'n delio gyda'r angen am dai mewn modd adweithiol;
- Mae Tîm Opsiynau Tai ar hyn o bryd yn meddu ar gyfradd llwyddiant o 60% ar gyfer y sawl sydd yn ddigartref neu'n wynebu digartrefedd[25];
- Mae yna nifer anghymesur o bobl ifanc sydd yn profi salwch meddwl a'r rhai sydd yn profi problemau camddefnyddio sylweddau o fewn llety dros dro[26].

3.2.2 Beth fyddwn yn gwneud:

- Adolygu'r wybodaeth am wasanaethau digartrefedd er mwyn sicrhau bod yna wybodaeth eglur a hawdd ei chyrraedd er mwyn helpu atal digartrefedd cyn gynted ag sydd yn bosib;
- Targedu aelwydydd sydd mewn peryg o ddod yn ddigartref drwy weithio mewn parterniaeth ag asiantaethau eraill;
- Ymgorffori Amgylchedd Sydd Wedi Ei Lywio gan Seicoleg wrth ddarparu ein gwasanaeth;
- Gweithio ar y cyd gyda chydweithwyr er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r sawl sydd mewn peryg o ddigartrefedd drwy'r Ymgyrch Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb y Cyngor;
- Gwneud defnydd gwell o dechnoleg gwybodaeth er mwyn dal a dadansoddi data er mwyn dod o hyd i gyfleoedd a'n gwella'r gwaith cynllunio;
- Ymchwilio sut i gynyddu'r nifer o aelwydydd sydd yn defnyddio'r gwasanaeth yn fwy cynnar, ac felly'n lleihau'r nifer o aelwydydd sydd mewn argyfwng;
- Parhau i fuddsoddi mewn atal digartrefedd i fyny'r gadwyn mewn lleoliadau addysg gan gynnwys y rhwydweithiau teulu ehangech;
- Ceisio dod o hyd i gronfeydd a buddsoddi mewn adnoddau er mwyn ymgysylltu gydag aelwydydd sydd mewn grwpiau risg uchel fel:
  - Iechyd Meddwl.
  - Pobl Ifanc.
  - Camddefnyddio Sylweddau.

### 3.3 Blaenoriaeth Dau: Darparu cymorth amserol ac effeithiol i drigolion bregus, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion uchel a chymhleth .

3.3.1 Y rheswm dros y flaenoriaeth hon

- *'…......mae darparu cymorth ar gyfer y sawl sydd heb do uwch eu pennau'* yn rhan allweddol o Strategaeth y Cyngor 'Looking Ahead, Delivering Now' i 2022;.
- Mae mabwysiadu dull o weithio sydd wedi ei lywio gan seicoleg a thrawma tuag at gomisiynu a darparu gwasanaethau, fel sydd ei angen gan Ganllaw Cam 2 yn golygu bod angen sicrhau bod cymorth yn hyblyg ac wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion unigol;
- Mae'r arolwg o anghenion cymorth a gynhaliwyd gan ddarparwyr yn amlygu dwy flaenoriaeth ar gyfer Cyngor Sir Fynwy: iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau[27];
- Roedd 96% o'r sawl mewn Llety Dros Dro yn meddu ar o leiaf un angen a oedd yn golygu bod angen cymorth arnynt. Roedd 23% o'r rhain wedi eu disgrifio fel rhai a oedd yn meddu ar anghenion Uchel a Dwys[28];
- Nid oes llety gan Sir Fynwy ar gyfer anghenion uchel a chymhleth. Ar hyn o bryd, nid oes yna lwybr tai eglur ar gyfer y grŵp hwn. Mae diffyg cyllid GCT yn golygu nad yw CSF yn medru cywiro hyn[29];
- Mae budd-ddeiliaid wedi disgrifio'r trafferthion yn sicrhau bod cleientiaid sydd ag anghenion cymorth iechyd meddwl lefel uchel yn derbyn y gefnogaeth briodol a'r dirywiad yn sefyllfa'r cleient yn ystod y cyfnod hwn[30];
- Roedd 31% o'r rhai a oedd yn derbyn cymorth wedi nodi bod anghenion iechyd meddwl ganddynt ac mae'r gwasanaethau cyfredol ar gyfer cymorth iechyd meddwl yn annigonol yn sgil yr holl alw[31];
- Mae'r rhai hynny sydd ag anghenion cymorth sy'n ymwneud gyda Chamddefnyddio Sylweddau yn cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn Llety Dros Dro, gan awgrymu fod hyn yn ffactor amlwg sydd yn cyfrannu at ddigartrefedd[32]. Ar hyn o bryd, mae'r GCT yn comisiynu gweithiwr allgymorth o'r Gwent Drug and Alcohol Service (GDAS) er mwyn darparu cymorth ond nid oes yna unrhyw wasanaeth arbenigol neu lety ar gyfer y grŵp hwn[33];

---

[25] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.12.1
[26] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.5
[27] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.5.1.3, 10.5.1.4
[28] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.3.1
[29] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.5.1.3; 10.5.1.4
[30] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.1.4.2
[31] (Cyngor Sir Fynwy, 2022), Tabl 46, 10.2.3
[32] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.4.2.6
[33] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.5.13

- Mae yna alw ar hyn o bryd i ehangu'r cynllun Housing First presennol. Ar hyn o bryd, mae ond un gweithiwr Housing First ac mae unigolion yn aros am gymorth a llety Housing First[34];
- Mae CSF wedi gweld cynnydd yn y gyfran o Bobl Ifanc sydd yn gwneud ceisiadau am eu bod yn ddigartref, gyda chyfran uchel yn meddu ar anghenion uwch na'r hyn y mae'r gwasanaethau yn cael eu hariannu i ddelio gyda hwy;
- Mae'r galw am wasanaethau VAWDASV wedi arwain at gynnydd sylweddol sydd yn ymddangos fel tuedd barhaus[35]. Rhaid monitro gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i atgyfnerthu arfer gorau, gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'n cydweithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid allweddol er mwyn mynd i'r afael gyda phob math o VAWADSV ar gyfer dinasyddion a draws Gwent a Sir Fynwy.

3.3.2 Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Ymgysylltu Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn adnabod yr adnoddau ychwanegol sydd angen er mwyn cynyddu capasiti'r rhaglen cymorth tai a chefnogi argaeledd;
- Ceisio ehangu'r gwasanaeth Housing First i ddiwallu anghenion na sydd wedi eu diwallu;
- Ehangu'r gwasanaeth cymorth fel sydd angen ar gyfer Pobl Ifanc ac ail-fodelu'r tai a rennir er mwyn cynyddu argaeledd y llety penodol sydd ar gael i bobl ifanc;
- Adolygu a gwerthuso'r llety i Bobl Ifanc sydd newydd ei ail-fodelu o ran y canlyniadau sydd wedi eu sicrhau ar gyfer y rhai hynny ag anghenion uwch ac ystyried a oes angen Housing First ar gyfer Pobl Ifanc.
- Cynyddu'r llety a'r cymorth sydd ar gael i bobl ag anghenion cymhleth sydd yn ymwneud gyda chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl;
- Adolygu, gwerthuso ac ail-gomisiynu'r gwasanaethau Grantiau Cymorth Tai erbyn Ebrill 2023.

### 3.4 Blaenoriaeth Tri: Cynyddu'r mynediad at yr ystod o ddatrysiadau tai fforddiadwy ac addas ar gyfer aelwydydd digartref, boed yn rhai dros dro neu'n barhaol.

3.4.1 Rheswm dros y flaenoriaeth hon:

- Mae nifer o aelwydydd yn credu bod rhentu a berchen ar eiddo yn anfforddiadwy[36];
- Mae yna ddiffyg tai yn y sectorau rhentu cymdeithasol a phreifat er mwyn cwrdd â'r galw, ac felly, ceir ond opsiynau cyfyngedig i symud aelwywydd allan o lety dros dro a brys[37];

[34] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.4.2
[35] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.2.2
[36] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 7.5.3.1
[37] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 7.5.20, 7.5.12.2

- Mae'r Cyngor yn ddibynnol ar y defnydd o lety Wely a Brecwast er mwyn helpu gyda chynnig llety dros dro. Mae Sir Fynwy wedi gweld cynnydd yn y defnydd a wneir o'r fath lety brys yn y 18 mis diwethaf ac yn meddu ar y nifer uchaf o aelwydydd digartref sydd mewn lleoliadau Gwely a Brecwast[38]. Nid yw'r defnydd o lety Gwely a Brecwast yn helpu o ran lles aelwydydd ac nid yw'n gynaliadwy o ran cost;
- Mae angen sicrhau bod y Cyngor yn sicrhau ei fod yn defnyddio ei ddyraniad llawn o'r Grantiau Tai Cymdeithasol a'i fod yn gwbl gyson gyda gofynion llety ar gyfer y digartref;
- Mae angen darparu ystod o lety dros dro a llety â chymorth, yn enwedig o ran llety brys anghenion canolig i uchel[39];
- Roedd dyletswydd Atal A66 wedi dod i ben gan osod 37% o ymgeiswyr mewn tai rhentu cymdeithasol a 63% mewn tai rhentu preifat[40];
- Roedd y Rhyddhad A73 wedi dod i ben gan osod 30% o ymgeiswyr mewn tai rhentu cymdeithasol a 28% mewn tai rhentu preifat[41].

[38] (Cyngor Sir Fynwy, 2022) 9.1.2
[39] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 10.3.4.2
[40] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.6.5.3
[41] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 8.6.6.1

3.4.2 Beth fyddwn yn ei wneud:

- Gweithio gyda phartneriaid Homesearch er mwyn gweithredu cwotas Cofrestr Tai hyblyg er mwyn sicrhau bod cynifer ag sydd yn bosib o lefydd gwag mewn tai cymdeithasol yn mynd i aelwydydd digartref;
- Gweithio gyda phartneriaid Homesearch er mwyn cymryd camau er mwyn gwneud y ‘defnydd gorau’ a’n sicrhau bod y stoc yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu pobl o symud ymlaen i lety dros dro;
- Adolygu’r defnydd o bob math o lety a lleihau ein dibyniaeth ar hyn dros gyfnod y strategaeth;
- Parhau i gydlynu’r Bartneriaeth Tai Strategol sydd newydd ei sefydlu gan Sir Fynwy gyda phartneriaid cymdeithas tai er mwyn helpu adnabod cyfleoedd i ddatblygu tai fforddiadwy newydd;
- Parhau i ystyried yr angen o ran digartrefedd wrth ddatblygu gwaith y Cyngor a Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol;
- Gwerthuso’r cyfleoedd i’r Cyngor i fanteisio ar yr asedau sydd yn eiddo i’r Cyngor, a hynny at ddibenion digartref;
- Gwerthuso’r opsiwn o’r Cyngor yn datblygu cartrefi newydd y mae modd eu defnyddio fel llety ar gyfer y digartref;
- Gwerthuso’r opsiwn o brynu eiddo yn uniongyrchol ar y farchnad agored ar gyfer llety i’r digartref;
- Gweithredu’r Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag er mwyn targedu eiddo gwag a chyfleoedd i ddatblygu canol trefi;
- Yn sefydlu cysylltiadau gyda mudiadau gwirfoddol lleol ac eglwysi lleol/grwpiau ffydd er mwyn datblygu gwasanaethau newydd;
- Adolygu a gwerthuso Monmouthshire Lettings er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i wella’r gwasanaeth ac annog landlordiaid preifat i gynnig eu heiddo i’r Cyngor;
- Datblygu dull ‘ailgartrefu cyflym’ er mwyn helpu pobl i symud i dai parhaol;
- Datblygu’r dull ‘Housing First’ er mwyn datblygu datrysiadau tai hirdymor i bobl na sydd wedi medru cynnal llety yn y gorffennol yn sgil anghenion cymhleth a/neu amrywiol.

### 3.5 Blaenoriaeth Pedwar: Symud i Ddull Ailgartrefu Brys

3.5.1 Bydd yr amcanion allweddol sydd angen er mwyn cwrdd â'r blaenoriaethau yma yn cynnwys:

- Fel prif flaenoriaeth, bydd angen parhau i ddod o hyd i gyfleoedd er mwyn atal digartrefedd fel y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael gyda digartrefedd. Os nad oes modd atal digartrefedd:
    - Cynllunio systemig er mwyn sicrhau bod llety sefydlog ar gael;
    - Symud i lety sefydlog ar yr un pryd, yn hytrach nag ar ôl, mynd i'r afael gyda'r anghenion cymorth;
    - Gwella ansawdd a lleihau'r angen am lety dros dro;
    - Cynnig pecyn o gymorth a chymorth aml-asiantaeth, sydd wedi ei deilwra i unigolion unigol lle y mae angen hyn;
    - Dylai 'Ailgartrefu Brys' fod yn hyblyg a'n cydnabod bod pobl sydd yn ddigartref yn meddu ar lefelau gwahanol o anghenion.

3.5.2 Rheswm dros y flaenoriaeth hon:

- Mae angen gweithredu cyfarwyddyd polisi Llywodraeth Cymru a sefydlu a gweithredu Cynllun Pontio Ail-gartrefu Brys.

### 3.6 Blaenoriaeth Pump: Sicrhau bod cymaint ag sydd yn bosib a chynyddu argaeledd ac effeithiolrwydd yr adnoddau ariannol, staffio/gweithlu a chydlafurio sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael gyda digartrefedd.

3.6.1 Rhesymau dros y flaenoriaeth hon:

- Ar hyn o bryd, nid oes yna gyllid ar gyfer nifer o gamau gweithredu o fewn y Strategaeth. Yn sgil y diffygion yma, mae angen dod o hyd i gyllid hirdymor ac adnoddau er mwyn diwallu'r anghenion digartref sydd wedi eu nodi yn y datganiad o angen ac ariannu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu o fewn y Strategaeth. Heb hyn, nid oes modd gweithredu rhai o'r cynigion yma;
- Mae angen sicrhau bod yr holl wasanaethau digartref yn gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithiol wrth gynnig buddion ariannol;
- Gweithio ag eraill mewn ffordd gydweithredol er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau a rennir sydd yn gynaliadwy ac yn egwyddor allweddol o strategaeth y Cyngor i haf 2022, 'Looking Ahead, Delivering Now';

- Roedd adborth o'r digwyddiadau i rhanddeiliaid wedi amlygu'r risg posib o ariannu prosesau ar gyfer gwasanaethau sydd yn cynnig 'datrysiadau' byrdymor yn hytrach na datrysiadau cynaliadwy hirdymor[42];
- Mae mynd i'r afael gyda digartrefedd a'n sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn golygu bod angen mewnbwn gan fudiadau arbenigol eraill a'r sgiliau a'r wybodaeth na sydd o reidrwydd gan y Cyngor;
- Mae nifer o wasanaethau digartref a thai eisoes yn cael eu darparu drwy gyfrwng partneriaethau ag eraill fel Monmouthshire Homesearch, y Rhaglen Grantiau Cymorth Tai a'r Panel Ymyrraeth Tai. Mae modd adeiladu ar y partneriaethau yma;
- Mae angen sicrhau bod yna ddigon o staff a gallu i ddarparu gwasanaethau digartref a'r strategaeth hon. At hyn, o feddwl bod darparu gwasanaethau digartref yn medru bod yn hynod adweithiol a'n tipyn o faich ar staff, mae angen i'r staff gael ei cefnogi'n briodol.

3.6.2 Yr hyn a wnawn:

- Dod o hyd i gyllid ar gyfer yr amcanion lle nad oes cyllid wedi ei glustnodi hyd yma;
- Symud o'r trefniadau byrdymor a sefydlwyd yn gyflym yn sgil y Pandemig Covid ac mewn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru i ddatrysiadau hirdymor mwy cynaliadwy;
- Byddwn yn cydweithio yn fewnol ac yn allanol gyda mudiadau sydd yn cynnig ystod o sgiliau a gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad er mwyn mynd i'r afael gyda digartrefedd yn llwyddiannus;
- Byddwn yn datblygu'r fforwm Cymorth Tai a Digartrefedd;
- Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd a chost-effeithlonrwydd dadansoddi data er mwyn atal digartrefedd;
- Parhau i fonitro strwythurau staff y timau sydd yn darparu gwasanaethau digartref er mwyn sicrhau bod yna gapasiti digonol
- Cynnal archwiliad o anghenion hyfforddi a sefydlu rhaglen hyfforddi er mwyn cefnogi staff i ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau.
- Mabwysiadu a chynnal dull o weithio sydd wedi ei lywio gan Seicoleg/Trawma;
- Dod o hyd i gyfleoedd i gynyddu trefniadau cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;

[42] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.6.2

- Ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru o ran trefniadau cyllid ar gyfer y dyfodol er mwyn cysoni hyn gyda'r anghenion o ran digartrefedd yn Sir Fynwy;
- Dod o hyd i gyfleodd i wasanaethau digartrefedd a datrysiadau er mwyn cefnogi blaenoriaethau ehangach. Er enghraifft, anghenion Gofal Cymdeithasol, mynd i'r afael ag eiddo gwag, adfywio canol Trefi a datgarboneidido.

## 4 Ymgysylltu Rhanddeiliaid

4.1.1 Roedd ymgynghoriad manwl wedi ei gynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth a mudiadau partner er mwyn sicrhau bod y Datganiad o Anghenion a datblygiad y strategaeth hon yn berthnasol a'n gyfredol er mwyn ariannu'r Cyngor i fynd i'r afael gyda digartrefedd o fewn y sir[43].

4.1.2 Un ffordd o ymgynghori gyda budd-ddeiliaid cyn cyfnod COVID oedd cynnal digwyddiad mewn lle digon mawr i wahodd nifer o gynrychiolwyr. Fodd bynnag, yn sgil COVID, roedd y Cyngor wedi penderfynu mai'r ffordd fwyaf diogel oedd trefnu holiadur ar-lein.

4.1.3 Roedd y mudiadau canlynol wedi derbyn yr holiadur yma i'w chwblhau:

- Gwasanaethau iechyd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Gwasanaethau Prawf a Diogelwch Cymunedol
- Gwasanaethau cam-drin domestig
- Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig
- Gwasanaethau cyngor tai
- Defnyddwyr gwasanaeth

4.1.4 Roedd cyfanswm o 45 unigolyn wedi derbyn yr holiadur.

4.1.5 Yn ogystal â'r holiaduron i randdeiliaid, roedd sesiynau grwpiau ffocws wedi eu cynnal gan ddefnyddio fideo-gynadledda a'n ymdrin gyda'r pum maes gwasanaeth canlynol:

[43] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); Pennod 11

- Gwasanaethau Diogelwch Cymunedol a Thrais yn y Cartref
- Gwasanaethau Iechyd
- Gwasanaethau Cyngor Atal Digartrefedd
- Gwasanaethau Darparwyr Cymorth Tai
- Gwasanaethau Pobl Ifanc

## 4.2 Adborth gan randdeiliaid

4.2.1 Mae modd categoreiddio'r adborth a dderbyniwyd drwy gyfrwng y ffyrdd uchod mewn chwe thema: Cyfathrebu, Staffio, Llety a Chymorth, Trafnidiaeth, Deddfwriaeth, Polisi a Phrosesau a'r Gymuned.

4.2.2 **Gweithio mewn Partneriaeth:** Y farn gyffredinol yw bod gwasanaethau wedi gwella, a hynny'n bennaf yn sgil y newid mewn ffyrdd o weithio a achoswyd gan y pandemig. Mae mwy o awch gan asiantaethau i weithio gyda'i gilydd yn hyblyg ac yn greadigol er mwyn cwrdd â heriau'r 18 mis diwethaf. Soniwyd am y Panel Ymyrraeth Tai droeon fel enghraifft o arfer da yn y maes sydd yn caniatáu i weithwyr proffesiynol i ddod at ei gilydd er mwyn chwilio am ddatrysiadau creadigol ac sydd hefyd yn adnodd ataliol. Mae'r tîm TOT wedi ei ehangu yn ddiweddar gan eu bod wedi dod yn fwy creadigol yn y ffordd y maent yn mynd i'r afael gyda digartrefedd a'n chwilio am ddatrysiadau[44].

4.2.3 Fodd bynnag, yn wahanol i bartneriaid strategol, roedd defnyddwyr gwasanaeth yn credu bod modd gwella'r cyfathrebu rhwng CSF a'r asiantaethau[45].

4.2.4 **Cyfathrebu:** Mae'r defnydd o ffyrdd digidol er mwyn cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth yn gam positif, yn enwedig gan fod Sir Fynwy yn ardal lled-wledig[46]. Mae'r defnydd cynyddol o MS Teams wedi gwneud cydlafurio yn fwy hawdd rhwng asiantaethau partner. Fodd bynnag, nodwyd hyn fel pryder hefyd, gan bwysleisio bod yn rhaid cofio am ei gyfyngiadau. Fel sir wledig, nid oes yna gysondeb o ran seilwaith, fel y rhyngrwyd a signal ffôn, ac felly, mae yna beryg bod rhai pobl yn cael eu hallgau o'r gwasanaethau. At hyn, byddai'n well gan rai trigolion i adeiladu ymddiriedaeth a chael perthynas gyda'r gwasanaethau. Hoffai'r holl wasanaethau weld dull cymysg o weithio wrth gyfathrebu gyda thrigolion er mwyn medru ymateb i'r ffordd y maent am gyfathrebu[47].

---

[44] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.2.1, 11.1.4.1
[45] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.2.2.3
[46] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.2.1
[47] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.2.2

4.2.5 **Llety a Chymorth:** Y thema a oedd wedi dominyddu'r drafodaeth oedd gwendid yr adnoddau. Cydnauwyd fod diffyg llety yn SIr Fynwy o bob math ond roedd y sawl a fu'n cymryd rhan wedi nodi fod hyn yn arbennig o wir ar gyfer y sawl sydd ag anghenion canolig i uchel, gan nad oes yna unrhyw ddarpariaeth addas ar gyfer cyn-droseddwyr, y sawl sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol difrifol a'r sawl sydd ag anghenion iechyd meddwl canolig i uchel. Roedd y syniad o hostel â chymorth 24 awr wedi ei nodi mewn sawl grŵp ffocws gan fod gwasanaethau cymorth wedi nodi nifer fawr o achosion cymhleth yn dod drwy'r system[48].

4.2.6 Mae'r tîm Grant Cymorth Tai wedi cynnal cyfweliadau ymadael gyda nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd 83.3% o'r sawl a fu'n ymateb fod eu profiadau wedi bod yn bositif ac wedi arwain at newid yn eu bywydau ac roedd 72.9% wedi dweud bod y cymorth y maent wedi derbyn wedi cynyddu eu gallu i fyw'n annibynnol[49].

4.2.7 **Polisi a Phrosesau:** Mae gwasanaethau wedi nodi bod cleientiaid angen ail-adrodd eu hamgylchiadau a'u hanes blaenorol a bod hyn yn ei dro yn cyfrannu at ddiwylliant o gleientiaid yn cael eu trawmateiddio drwy orfod ail-adrodd y materion a'r heriau y maent yn wynebu wrth iddynt symud rhwng y gwasanaethau. Mae diffyg sylwedd yr atgyfeiriadau hefyd yn medru golygu bod defnyddwyr o dan anfantais oherwydd efallai nad ydynt wedyn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cywir ar gyfer eu hanghenion, ac felly, rhaid iddynt fynd drwy'r system eto. Hefyd, mae hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y gwasanaethau sydyn cael eu darparu.

4.2.8 Nid oedd defnyddwyr gwasanaeth wedi canmol y broses ddigartrefedd, gan ddisgrifio hon fel proses gymhleth gyda diffyg eglurder ar sut oedd eu ceisiadau yn cael eu prosesu. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth wedi disgrifio'r broses fel rhywbeth a oedd yn cael effaith negatif ar eu hiechyd meddwl[50]. Roedd y sawl a ymatebodd i'r holiadur yn bositif ar y cyfan pan yn ystyried y gwasanaeth y maent wedi derbyn gan y Tîm Opsiynau Tai, gyda 95% o gleientiaid yn dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaethau gan y Tîm Opsiynau Tai; a 91% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r llety dros dro[51].

[48] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.4.2
[49] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.3.2
[50] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.2.2.4
[51] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.4.1

4.2.9 **Staffio:** Mae staffio yn parhau'n her ar draws y sector ac mae hyn yn adlewyrchu'r tueddiadau cenedlaethol. Mae'n anodd i wasanaethau i recriwtio staff a chadw gafael arnynt. Mae'r straen o weithio yn ystod y pandemig wedi effeithio ar les y staff, ond mae yna gystadlaethau o'r sectorau eraill sydd yn medru cynnig cyflog uwch a bonws ychwanegol[52].

4.2.10 **Polisi Cyllid:** Roedd unigolion wedi trafod y prosesau cyllid ar gyfer gwasanaethau ac wedi nodi fod hyn fel arfer ar sail byrdymor sydd yn gwneud hi'n anodd i ddatblygu datrysiadau hirdymor i'r materion. Nid yw gwasanaethau yn teimlo eu bod yn medru gweithio gyda sicrwydd pan mae modd tynnu'r cyllid neu newid y cyllid mor aml[53].

## 5 Asesiadau Effaith

5.1 A fydd eich cynigion yn effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl gyda nodweddion gwarchodedig? Esboniwch yr effaith, y dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio ac unrhyw gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd islaw.

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig** | **Beth a gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well ar effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| Oedran | Caiff y cynnig hwn effaith gadarnhaol ar bobl 16+ oed sydd dan fygythiad digartrefedd neu sy'n ddigartref eisoes. Bydd hefyd o fudd i blant teuluoedd a all gael cymorth.<br>Prif ffocws y Strategaeth yw helpu atal pobl o fewn pob grŵp gyda nodweddion gwarchodedig rhag dod yn ddigartref. Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn.<br>Bydd y Strategaeth yn cynyddu faint o lety i'r digartref sydd ar gael, y math o lety sydd ar gael ac ansawdd y llety sydd ar gael. Yn yr un modd, bydd yn cynyddu'r math o gymorth tai sydd ar gael.<br>Bydd pob gweithgaredd ar ddigartrefedd, beth bynnag y cyngor a gwybodaeth, atal digartrefedd neu lety i'r digartref yn cefnogi pobl o bob nodwedd warchodedig. | Dim | Ni fydd unrhyw effeithiau negyddol yn codi fel canlyniad i'r Strategaeth hon, fydd yn anelu i barhau i adeiladu ar y camau ar ddigartrefedd a gafodd eu cyflwyno eisoes dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cynnwys:<br><br>Llety newydd<br>• 4 uned hunangynwysedig a llety rhannu argyfwng a gaiff ei rannu i deuluoedd yn y De<br>• 8 fflat un ystafell wely hunangynwysedig ar gyfer pobl sengl<br><br>Cymorth Tai newydd<br>• Cymorth tai llety dros dro<br>• Allgymorth dyfal<br>• Allgymorth dyfal ar broblemau cyffuriau ac alcohol<br>• Tai yn Gyntaf<br>• Tai â chymorth i bobl ifanc gydag anghenion cymorth uchel |

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig | Beth a gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well ar effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Anabledd | Mae'r Strategaeth yn benodol yn lliniaru yn erbyn diffyg llety hygyrch i'r digartref a bydd yn anelu i gynyddu'r llety hygyrch sydd ar gael. | Fel uchod | Mae'r llety hunangynwysedig newydd i deuluoedd mewn argyfwng yn y De eisoes wedi cynyddu'r llety hygyrch i'r digartref sydd ar gael. Mae llety newydd i unigolion sengl yng Nghas-gwent wedi darparu unedau ychwanegol ar y llawr daear sydd, er nad ydynt wedi eu haddasu'n benodol ar hyn o bryd, yn darparu 4 uned ychwanegol fydd yn cefnogi mater hygyrchedd. |

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig | Beth a gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu’n well ar effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd | Caiff y cynnig hwn effaith gadarnhaol ar bobl 16+ oed sydd dan fygythiad digartrefedd neu sy’n ddigartref eisoes. Bydd hefyd o fudd i blant teuluoedd a all gael cymorth.<br>Prif ffocws y Strategaeth yw helpu atal pobl o fewn pob grŵp gyda nodweddion gwarchodedig rhag dod yn ddigartref.<br>Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn. Bydd y Strategaeth yn cynyddu faint o lety i’r digartref sydd ar gael, y math o lety sydd ar gael ac ansawdd y llety sydd ar gael. Yn yr un modd, bydd yn cynyddu’r math o gymorth tai sydd ar gael.<br>Bydd pob gweithgaredd ar ddigartrefedd yn cefnogi pobl o bob nodwedd gwarchodedig. | Fel uchod | Ni fydd unrhyw effeithiau negyddol yn codi fel canlyniad i’r Strategaeth hon, fydd yn anelu i barhau i adeiladu ar y camau ar ddigartrefedd a gafodd eu cyflwyno eisoes dros y flwyddyn ddiwethaf sy’n cynnwys:<br><br>Llety newydd<br>• 4 uned hunangynwysedig a llety rhannu argyfwng a gaiff ei rannu i deuluoedd yn y De<br>• 8 fflat un ystafell wely hunangynwysedig ar gyfer pobl sengl<br><br>Cymorth Tai newydd<br>• Cymorth tai llety dros dro<br>• Allgymorth dyfal<br>• Allgymorth dyfal ar gyfer problemau cyffuriau ac alcohol<br>• Tai yn Gyntaf<br>• Tai â chymorth i bobl ifanc gydag anghenion cymorth uchel |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig ar y nodwedd warchodedig** | **Beth a gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well ar effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Caiff y cynnig hwn effaith gadarnhaol ar bobl 16+ oed sydd dan fygythiad digartrefedd neu sy'n ddigartref eisoes. Bydd hefyd yn fudd i blant teuluoedd a all gael cymorth.<br>Prif ffocws y Strategaeth yw helpu atal pobl o fewn pob grŵp gyda nodweddion gwarchodedig rhag dod yn ddigartref.<br>Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn. Bydd y Strategaeth yn cynyddu faint o lety i'r digartref sydd ar gael, y math o lety sydd ar gael ac ansawdd y llety sydd ar gael. Yn yr un modd, bydd yn cynyddu'r math o gymorth tai sydd ar gael.<br>Bydd pob gweithgaredd ar ddigartrefedd yn cefnogi pobl o bob nodwedd gwarchodedig. | Fel uchod | Fel uchod |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| Hil | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| Crefydd neu Gredo | .Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| Rhyw | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |

5.2 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth briodol i'r angen i ostwng deilliannau anghyfartal sy'n ganlyniad anfantais economaidd-gymdeithasol wrth gymryd penderfyniadau allweddol. Mae'r ddyletswydd yn gydnaws gyda'n hymrwymiad fel awdurdod i Gyfiawnder Cymdeithasol.

| | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig yng nghyswllt pobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig yng nghyswllt pobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Beth a gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol** | Budd cadarnhaol o’r Strategaeth yw y bydd yn helpu i fynd i’r afael a lliniaru anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae’r Strategaeth yn anelu i drawsnewid darpariaeth gwasanaethau digartrefedd. Yn y cyswllt hwn:<br>• Ni fydd unrhyw angen i gysgu allan<br>• Mae atal digartrefedd yn flaenoriaeth yn y Strategaeth. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda chynhwysiant ariannol e.e. uchafu incwm, cymorth gyda threfnu arian, cymorth cynhwysiant digidol, gostwng gwariant, cymorth ariannol (er enghraifft i gael mynediad i lety sector preifat neu fynd i’r afael ag ôl-ddyledion ac yn y blaen) sy’n lliniaru anfantais economaidd- gymdeithasol. Bydd ymyrryd ynghynt ac yn ‘uwch lan’ yn nod allweddol.<br>• Bydd y Strategaeth yn gwella ansawdd ac argaeledd llety dros dro, parhaol, lled-barhaol a llety cymorth.<br>• Y nod fydd i ddigartrefedd fod yn fyr ac nad yw’n ailddigwydd.<br>• Mae sefydlu Cynllun Trosiant Ailgartrefu Cyflym yn gam gweithredu allweddol.<br>• Symud i ‘gartrefi’ dros dro – nid yr isafswm moel, sy’n ddiogel a saff a lle gellir ailadeiladu bywydau.<br>Yn y cyd-destun hwn, mae ‘cartrefi’ ansawdd a a thwym sy’n rhoi diogelwch, | Nid oes gan y cynnig unrhyw effeithiau negyddol | Bydd y Strategaeth yn adeiladu ar wasanaethau presennol atal digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth Tai sy’n lliniaru yn erbyn anfantais economaidd-gymdeithasol o’r fath. Mae gwasanaethau o’r fath yn cynnwys:<br>• Cronfa atal<br>• Taliadau tai dewisol<br>• Cymorth llety dros dro<br>• Cymorth tai ail-sefydlu<br>• Cymorth tai cyffredinol fel y bo angen<br>• Cymorth Tai Pobl ar gyfer Pobl Ifanc<br>• Llamau Emphasis<br>• Tai yn Gyntaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sicrwydd a sefydlogrwydd yn gadarnhaol wrth annog plant i wneud eu gwaith cartref ac astudio, oedolion yn hyfforddi ac yn astudio ac oedolion yn cael mynediad i a chynnal swyddi. Yn yr un modd mae'n berthnasol i feysydd arall 'cynhwysiant' tebyg i fynediad i wasanaethau band eang ac ariannol.<br>Yn ogystal â darparu safonau uwch o lety fydd yn cynnig mwy o sefydlogrwydd i aelwydydd, bydd cymorth tai ar gael i aelwydydd. Bydd asesiadau cymorth yn rhoi ystyriaeth i anghenion hyfforddiant a chyflogaeth. | | |

5.3 Gwneud Polisi a'r Gymraeg.

| Sut mae eich cynnig yn effeithio ar agweddau dilynol Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor: | Disgrifiwch effeithiau cadarnhaol y cynnig hwn | Disgrifiwch effeithiau negyddol y cynnig hwn | Beth a gafodd/gaiff ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol |
|---|---|---|---|
| **Gwneud Polisi**<br><br>Effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg,<br><br>Hyrwyddo'r Gymraeg<br><br>Peidio â thrin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol | Caiff y Gymraeg ei chynnwys yn y meysydd hynny o wasanaeth lle mae gwybodaeth ysgrifenedig. Mae enghreifftiau lle medrir gweithredu gwasanaeth dwyieithog yn cynnwys:<br><br>• Cytundebau llety<br>• Llythyrau safonol<br>• Cynlluniau Tai Personol<br>• Cynlluniau Cymorth Tai<br>• Arwyddion llety<br>• Gwybodaeth gwefan<br>• Gwybodaeth ar bapur e.e. taflenni | Dim | Dim yn berthnasol |
| **Gweithredol**<br><br>Recriwtio a hyfforddi'r gweithlu | Nid oes unrhyw ofyniad am siaradwyr Cymraeg yng nghyswllt darpariaeth weithredol ac, felly, recriwtio a hyfforddiant. Fodd bynnag, caiff siaradwyr Cymraeg eu hannog yn gadarnhaol i wneud cais am swyddi gwag.<br><br>Caiff staff presennol eu hannog drwy uned hyfforddiant y Cyngor i gael mynediad i wersi Cymraeg. | Dim | Mae dau aelod o'r tîm Tai wedi manteisio ar y cyfle hwn ar hyn o bryd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Darpariaeth gwasanaeth**<br><br>Y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaeth<br><br>Hyrwyddo defnydd o'r iaith | Mae camau i wella darpariaeth gwasanaeth y Cyngor i'r digartref yn gyfle i hyrwyddo'r ffaith y gall unrhyw un sy'n cysylltu'r cyngor ynghylch digartrefedd ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost, Twitter, Facebook, llythyrau, ffurflenni ac yn y blaen | Dim | Cafodd y polisi Cofrestr Tai ei adolygu y llynedd a chaiff y newidiadau eu gweithredu. Un newid o'r fath yw sefydlu fersiwn Cymraeg o wefan Homesearch. Mae gwefan Homesearch yn cynnwys gwybodaeth ar ddigartrefedd ac felly yn floc adeiladu wrth symud ymlaen. |

5.4 A yw'ch cynnig yn cyflenwi unrhyw un o'r nodau llesiant isod? Esboniwch yr effaith (cadarnhaol a negyddol) a ddisgwyliwch, ynghyd ag awgrymiadau ar sut i liniaru effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at y nod. Nid oes angen rhoi popeth ym mhob blwch os nad yw'n berthnasol!

| **Nod Llesiant** | **A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol** | **Pa gamau a gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Defnydd effeithol o adnoddau, pobl addysgedig a medrus, cynhyrchu cyfoeth, darparu swyddi | **Cadarnhaol:**<br>Mae dileu digartrefedd yn flaenoriaeth gynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac felly mae'n flaenoriaeth strategol i'r Cyngor. Oherwydd y newid mewn proffiliau angen a galw, bu angen creu swyddi a chyflogaeth ychwanegol ar draws y sector tai i reoli'r newid mewn galw. Mae'r Cyngor wedi recriwtio staff ychwanegol ar gyfer hyn.<br><br>Mae'r cynnig yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gynyddu opsiynau tai ar gyfer rhai sydd dan fygythiad digartrefedd neu sy'n ddigartref yn barod.<br><br>Mae'r holl wasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau cynaliadwy sy'n gwneud defnydd effeithiol a gorau o'r adnoddau sydd ar | Bydd gwasanaethau digartrefedd yn ymwneud â darpariaeth llety yn gadarnhaol yng nghyswllt cyflogaeth oherwydd yr angen am wasanaethau atgyweirio a cynnal a chadw a fydd yn fanteisiol i gwmnïau a chadwyni cyflenwi lleol.<br><br>Effaith o bolisi Llywodraeth Cymru fu'r cynnydd yn y defnydd o lety G&B o ran niferoedd sydd ei angen a hefyd cyfnod cyfartalog aros oherwydd diffyg cyfredol tai fforddiadwy a llety dros dro/â chymorth addas. Nid yw hyn yn llety cynaliadwy yn nhermau gwariant neu lesiant yr aelwydydd a gaiff lety. Bydd y Strategaeth yn lliniaru yn erbyn hyn, er enghraifft drwy:<br><br>• Dyrannu cwotâu mwy hyblyg o dai cymdeithasol i aelwydydd digartref. |

| Nod Llesiant | A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol | Pa gamau a gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|
| | gael. Ffocws canolog hyn yw i aelwydydd sydd angen cymorth gyda digartrefedd i fedru sicrhau eu llety cynaliadwy eu hunain a byw mor annibynnol ag sydd modd. Gall y gwasanaeth roi buddion ehangach i wasanaethau eraill e.e. hwyluso rhyddhau o ysbyty, gostwng dibyniaeth ar becynnau Gofal Cymdeithasol, cefnogi adnoddau cyfiawnder troseddol ac yn y blaen.<br><br>Mae llety sefydlog ac ansawdd da sy'n ddiogel a saff yn rhoi platfform da i aelwydydd digartref i adeiladu eu bywydau arno.<br><br>**Negyddol:**<br>Oherwydd y newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, er am resymau cadarnhaol (ee i leihau cysgu allan), bu angen dilynol i ddefnyddio llety ychwanegol Gwely a Brecwast, na chaiff ei ystyried yn llety cynaliadwy. | • Cyflwyno tai rhannu o fewn y sector cymdeithasol.<br>• Ail ddynodi tai cymdeithasol<br>• Ceisio defnyddio'r rhaglen grant tai cymdeithasol i gynyddu'r llety sydd ar gael a fydd yn fanteisiol i ymgeiswyr digartref<br>• Ceisio datblygu Gosodiadau Sir Fynwy i hyrwyddo a dynodi cyfleoedd llety newydd yn y sector rhent preifat. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cynnal a chynyddu bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cefnogi cydnerthedd a all addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | **Cadarnhaol:**<br>Dim yn berthnasol<br><br>**Negyddol:**<br>Dim yn berthnasol | Ar brosiectau llety a ddatblygir, bydd y Cyngor yn defnyddio hyn fel cyfle i ystyried cwmpas i ymgorffori safonau llety sy'n lliniaru yn erbyn newid hinsawdd a mynd i'r afael ag allyriadau carbon ee paneli ffoto--foltaig. |
| **Cymru iachach**<br>Gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl a deall effeithiau iechyd | **Cadarnhaol:** | Mae'r Cyngor eisoes wedi sefydlu gwasanaethau ychwanegol ym maes digartrefedd tebyg i'r: |

| Nod Llesiant | A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol | Pa gamau a gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|
| | Mae gwasanaethau digartrefedd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau iechyd cadarnhaol ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys cefnogi:<br><br>• Pobl gydag anabledd corfforol, yn neilltuol drwy lety mwy hygyrch. Bydd y tîm digartrefedd hefyd yn cydlynu gyda'r tîm Byw Cynaliadwy a chymdeithasau tai yng nghyswllt chyfleoedd i addasu naill ai lety dros dro neu lety parhaol.<br>• Bydd mwy o gefnogaeth ar gyfer rhai gyda phroblemau cam-drin sylweddau ac alcohol drwy lety penodol a chymorth arbenigol.<br>• Bydd hefyd fwy o gymorth ar gyfer rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl<br><br>Bydd camau gweithredu allweddol ar gyfer y Cyngor drwy'r Strategaeth i sefydlu cynllun pontio Ailgartrefu Cyflym, gyda rhan o hynny yn cynnwys trefniant brysbennu. Fel canlyniad bydd anghenion unigolion yn dull mwy systematig a chadarn.<br><br>Cam gweithredu allweddol fydd cryfhau cysylltiadau cyfredol gydag Iechyd.<br><br>Mae tai da yn cefnogi llesiant.<br><br>**Negyddol:** Dim | • Panel Ymyriad Tai<br>• Llety dros dro ychwanegol yn gyffredinol<br>• Cymorth penodol gyda llety dros dro a chefnogaeth ailsefydlu<br>• Tai yn Gyntaf<br>• Allgymorth dyfal ar gyfer problemau Cyffuriau ac Alcohol<br>• Ailgymorth dyfal ar gyfer rhai sy'n cysgu allan<br><br>Mae'r uchod i gyd yn wasanaethau y gellir adeiladu arnynt a'u hehangu lle bynnag sy'n bosibl |
| **Cymru o gymunedau cydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | **Cadarnhaol:**<br>Bydd y Strategaeth a'r ffocws ar lety ychwanegol i'r digartref ac ystod ehangach o wasanaethau | Yn flaenorol dim ond yng ngogledd y Sir yr oedd gan y Cyngor lety neilltuol i deuluoedd. Mae'r Cyngor bellach wedi sefydlu darpariaeth neilltuol yn Ne'r Sir. Fodd bynnag, bu angen dros dro i |

| Nod Llesiant | A yw’r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol | Pa gamau a gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|
| | cymorth tai yn gostwng tebygrwydd pobl yn methu parhau i fyw yn eu cymunedau cartref.<br><br>Er enghraifft, sefydlu darpariaeth tebyg i Lety Argyfwng i Deuluoedd yn y Gogledd a’r De i leihau tebygrwydd aelwydydd yn gorfod symud i leoliad arall ac i ffwrdd o ysgolion, cyfleusterau, gwasanaethau iechyd, cyflogaeth a rhwydweithiau cymorth eraill.<br><br>Mae cynlluniau tai â chymorth yn cyfrannu at ddiogelwch y gymuned drwy bresenoldeb rheolaidd neu barhaol weithwyr proffesiynol.<br><br>Bydd safonau llety yn cynnwys elfennau tebyg i CCTV.<br><br>**Negyddol**<br>Er nad yn effaith negyddol o’r Strategaeth ei hun, oherwydd prinder llety, gall fod rheidrwydd parhaus er is i aelwydydd gael eu hadleoli i ffwrdd o’u cymunedau cartref er mwyn cael mynediad i lety, yn neilltuol lety arbenigol dros dro. Mae’r Strategaeth hon yn parhau i liniaru hyn. | ddefnyddio’r llety teulu yng ngogledd y Sir ar gyfer pobl sengl angen uchel.<br><br>Yn nhermau diogelwch y cymuned, caiff gweithdrefnau i’r digartref eu seilio ar weithdrefnau asesu risg trylwyr i lywio digartrefedd a chefnogi asesiadau a lleoliadau posibl. |
| **Cymru sy’n gyfrifol yn fyd-eang**<br>Rhoi ystyriaeth i’r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol | **Cadarnhaol:** Bydd y Strategaeth hon yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i’r nod hon. Mae enghreifftiau o sut y bydd y Strategaeth yn cyfrannu yn cynnwys:<br><br>• Atal digartrefedd<br>• Ceisio osgoi’r angen am gysgu allan | Dim yn berthnasol |

| Nod Llesiant | A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol | Pa gamau a gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|
| | • Darparu llety ansawdd uwch da i bobl ddigartrefedd fydd â safonau amgylcheddol uwch<br>• Bydd llety sefydlog yn helpu gydag iechyd a llesiant (e.e. twym, diogel a saff) a bydd yn hwyluso mynediad i gymorth tai priodol y gellir ei gyrchu ar gyfer cymorth tebyg i gyflogaeth a hyfforddiant. Caiff ymgeiswyr digartref eu cefnogi i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau cymorth.<br>• Bydd y Strategaeth yn arwain at gynyddu buddsoddiad ariannol i wasanaethau digartref fydd yn gadarnhaol ar gyfer yr economi lleol e.e. gwasanaethau cymorth tai, atgyweirio a chynnal a chadw ac yn y blaen<br>**Negyddol:** Dim yn berthnasol | |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u gwarchod. Pobl yn cael eu hannog i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | **Cadarnhaol:** Dim yn berthnasol<br><br>**Negyddol:** Dim yn berthnasol | Dim yn berthnasol |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Gall pobl gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau. | **Cadarnhaol:** Mae'r cynnig yn cryfhau y llety preswyl sydd ar gael yn Sir Fynwy. Mae unrhyw lety yn helpu i gynyddu sefydlogrwydd ym mywydau pobl, gwella cyfleoedd yng nghyswllt cyllid personol, cyflogaeth, hyfforddiant ac yn y blaen. | Dim yn berthnasol |

| Nod Llesiant | A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol | Pa gamau a gafodd/gaiff eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|
| | **Negyddol:** Dim. | |

5.5 Sut mae eich cynnig wedi sefydlu a rhoi blaenoriaeth i egwyddorion llywodraethiant cynaliadwy yn ei ddatblygiad?

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r ddyletswydd? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau gweithredu ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau negyddol? |
|---|---|---|
| **Hirdymor**<br><br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae Ataliaeth tymor byr yn flaenoriaeth yn y Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn anelu'n benodol i ddynodi mwy o gyfleoedd i ymyrryd yn gynharach ac yn uwch. Er enghraifft, un cam gweithredu yw cysylltu gydag ymgyrch y Cyngor ar gyfer lliniaru yn erbyn tlodi. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys sefydlu proses ar gyfer adnabod pobl ifanc a all fod mewn risg o ddod yn ddigartref. Caiff y rhai a gaiff eu dynodi eu monitro a sefydlir 'llwybr tai' fel mesur wrth gefn.<br><br>Mae'r Strategaeth yn anelu i sefydlu llety dros dro ychwanegol fydd yn helpu i ateb anghenion tymor byr. Mae'r ddarpariaeth hon ynghyd â chymorth tai yn gydnaws gyda'r tymor canol i'r hirdymor yng nghyswllt cefnogi pobl i ailadeiladu eu bywydau a dod yn llai dibynnol ar gymorth.<br><br>Blaenoriaeth arall yn y Strategaeth yw sefydlu Cynllun Trosiant Ailgartrefu Cyflym. Bydd hyn yn cynllunio ar gyfer gofynion llety a chymorth y dyfodol.<br><br>Mae Tai a Cymunedau yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol yng nghyswllt trefniant cynllunio ar y cyd i ddynodi a chynllunio anghenion tai y dyfodol yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol. Bydd elfen o hyn yn cynnwys cleientiaid Gofal Cymdeithasol sydd mewn risg o ddod yn ddigartref. Bydd y cynllunio hwn yn helpu i lywio datblygiad y rhaglen Datblygu Tai Fforddiadwy a chomisiynu'r rhaglen Grant Cymorth Tai yn y dyfodol. | Dim. |

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r ddyletswydd? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau gweithredu ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau negyddol? |
|---|---|---|
| **Cyd-weithio**<br><br>Cydweithredu ag unrhyw berson arall i fodloni amcanion. | Mae'r cynnig hwn yn seiliedig ar ddull gweithredu partneriaeth drwy'r partïon dilynol:<br><br>• Comisiynu Tai a Chymunedau a Grant Cymorth Tai<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Cymdeithasau tai<br>• Darparwyr cymorth tai<br>• Perchnogion eiddo preifat ac asiantaethau gosod<br>• Iechyd yr Amgylchedd<br>• Cynllunio<br>• Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan<br>• Gofal Cymdeithasol<br>• Datblygwyr preifat<br>• Y gymuned eglwysig | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnwys**<br><br>Cynnwys rhai sydd â diddordeb a gofyn am eu sylwadau | Ymgynghorir â rhanddeiliaid i'r Strategaeth. Cafodd nifer o gyfleoedd eu gweithredu eisoes i randdeiliaid ddylanwadu a bydd dulliau sy'n effeithlon wrth gefnogi gweithrediad.<br>**Datblygu Strategaeth**<br>Defnyddiwyd y dilynol i lywio'r Strategaeth:<br>• Arolwg rhanddeiliaid<br>• Gweithdai gyda thema i randdeiliaid<br>• Arolygon bodlonrwydd cleientiaid<br>• Adolygiadau Cymorth Tai<br>• Cyfarfodydd penodol gydag asiantaethau partner e.e. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Fforwm Darparydd Grant Cymorth Tai<br>• Cyfarfodydd gweithredol cyffredinol e.e. Grŵp Gweithredol Homesearch<br>• Gweithgor Eiddo Gwag<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd angen gwybodaeth<br>**Cyfleoedd i gynnwys**<br>Caiff y dilynol ei weithredu i roi cyfleoedd parhaus i gynnwys rhanddeiliaid:<br>• Gweithredu parhaus ar arolygon bodlonrwydd cleientiaid ac adolygiadau cymorth tai<br>• Partneriaeth/Fforwm Tai Strategol<br>• Gofal Cymdeithasol Strategol Gwent, Grŵp Iechyd a Tai<br>• Rhwydwaith Trechu Tlodi<br>• Grŵp Gweithredol CCG a Grant Cymorth Tai<br>• Panel Ymyrryd Tai<br>• Fforwm Darparydd Grant Tai Cymdeithasol<br>• Grŵp Gweithredol Homesearch<br>• Gweithgor Eiddo Gwag<br>• Landlordiaid Preifat<br>• Heddlu | N/A |

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r ddyletswydd? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau gweithredu ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau negyddol? |
|---|---|---|
| | • Angen monitro anghenion tai Gofal Cymdeithasol<br>• Trefniadau gweithredu cyffredinol gydag asiantaethau<br>• Partneriaeth/fforwm Tai Strategol<br>• Gofal Cymdeithasol Strategol Gwent, Grŵp Iechyd a Thai<br>• Rhwydwaith Trechu Tlodi<br>• Grŵp Gweithredol CC a Grant Cymorth Tai<br>• Panel Ymyriad Tai<br>• Fforwm Darparwyr Grant Cymorth Tai<br>• Grŵp Gweithredol Homesearch<br>• Gweithgor Eiddo Gwag<br>• Landlordiaid Preifat<br>• Heddlu<br>• Monitro anghenion tai Gofal Cymdeithasol<br>• Trefniadau gweithredu cyffredinol gydag asiantaethau tebyg i gymdeithasau tai, darparwyr cymorth. gofal cymdeithasol, stadau, partneriaethau - diogelwch y gymuned | |

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r ddyletswydd? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau gweithredu ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau negyddol? |
|---|---|---|
| **Atal**<br><br>Rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Craidd y cynnig hwn yw cynyddu'r adnoddau i atal digartrefedd, digartrefedd, cymorth a llety. Bydd y Strategaeth yn cydlynu cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad mewn digartrefedd. Y nod yn y tymor canol i'r hirdymor yw sicrhau dull gweithredu sydd wedi ei gynllunio yn helaethach, ei reoli ac yn gynaliadwy a fydd yn symud y gwasanaeth tuag at ddull gweithredu mwy rhagweithiol ac yn lleihau'r dull ymatebol, er y bydd bob amser elfen ymatebol i'r gwasanaeth oherwydd elfen 'rhwyd ddiogelwch' y gwasanaeth.<br><br>Er enghraifft mae'r Strategaeth yn anelu i gynyddu atal digartrefedd i ostwng yr angen am lety digartref i bobl; ar gyfer y rhai sydd angen llety a chefnogi'r bwriad yw cael trefniant brysbennu; ar gyfer y rhai sydd angen llety y bwriad yw fod llety ar gael yn hytrach na dibynnu ar fannau Gwely a Brecwast ac yn y blaen. | Dim yn berthnasol |

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi cyflawni'r ddyletswydd? Os do, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau gweithredu ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau negyddol? |
|---|---|---|
| **Integreiddio**<br><br>Ystyried effaith yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill | Mae'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau o lesiant. Mae'r Strategaeth yn cefnogi llesiant mewn amrywiaeth o ffyrdd:<br><br>• Mae digartrefedd yn gyffredinol yn cefnogi diogelu. Mae aseisadau risg yn brosesau allweddol fel rhan o weithdrefnau digartrefedd.<br>• Cartrefi dros dro, parhaol ac â chymorth ansawdd da, diogel, twym a sicr mewn mannau y mae eu hangen. Bydd y Strategaeth yn parhau i wella safon cartrefi.<br>• Bydd y cartrefi yn rhoi sefydlogrwydd ee hwyluso mynediad i wasanaethau iechyd, hyfforddiant, cyflogaeth ac yn y blaen<br>• Cymorth tai yn gydnaws gyda llesiant ac yn helpu ymgeiswyr i fynd i'r afael â rhwystrau i lesiant e.e. mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, mynediad i wasanaethau iechyd meddwl.<br>• Cysylltiadau agosach rhwng gwasanaethau i'r digartref a gwasanaethau iechyd. Mae comisiynu ar y cyd yn gyfle neilltuol. | Dim yn berthnasol |

5.6 Mae'r Cyngor wedi cytuno ar yr angen i ystyried yr effaith a gaiff ei benderfyniadau ar y cyfrifoldebau pwysig dilynol: Rhianta Corfforaethol a diogelu. A fydd eich cynigion yn effeithio ar y naill neu'r llall o'r cyfrifoldebau hyn?

| | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig** | **Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig** | **Beth fyddwch chi'n ei wneud/ydych chi wedi ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol** |
|---|---|---|---|
| Diogelu | Gall a bydd y cynnig yn cefnogi aelwydydd lle gallai fod problemau diogelu drwy ddarparu dros dro diogel a saff.<br><br>Defnyddir prosesau asesu risg trylwyr ar gyfer ymgeiswyr sy'n cyflwyno fel bod yn ddigartref. Mae hyn yn llywio lleoliadau ac atgyfeiriadau i asiantaethau. | Dim | Defnyddir y dilynol i liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol:<br><br>Dogfennau gweithdrefn; cyfarfodydd staff; nodiadau gwybodaeth a hyfforddiant |
| Rhianta Corfforaethol | Mae'r cynnig yn cefnogi Rhianta Corfforaethol drwy o bosibl ddarparu llety diogel a saff. | Dim | |

5.7 Pa dystiolaeth a data sydd wedi llywio datblygiad eich cynnig?

Casglwyd tystiolaeth yn y ffyrdd dilynol:

- Sefydlwyd Datganiad Angen i lywio'r Strategaeth
- Data ystadegol – yn arbennig data yn gysylltiedig â digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai
- Tystiolaeth ac adborth weithredol anecdotaidd
- Arolwg rhanddeiliaid
- Gweithdai gyda thema ar gyfer rhanddeiliaid:
  - Atal digartrefedd
  - Pobl ifanc
  - Cyfiawnder troseddol
  - Iechyd
- Cyfarfodydd defnyddwyr gwasanaeth
- Bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth ar ddigartrefedd, llety a chymorth tai

5.8 CRYNODEB: Fel canlyniad i lenwi'r ffurflen hon, beth yw prif effeithiau cadarnhaol a negyddol eich cynnig, sut maent wedi llywio/newid datblygiad y cynnig hyd yma a beth fyddwch chi yn ei wneud yn y dyfodol?

*Dylai'r adran hon grynhoi'r materion allweddol sy'n deillio o'r gwerthusiad. Rhaid cynnwys y crynodeb yn nhempled adroddiad y Pwyllgor.*

**Cadarnhaol**

Buddion cadarnhaol y cynnig hwn yw:

- Mae'n diffinio ac yn manylu ar yr angen digartrefedd yn Sir Fynwy. Bydd y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn deall yn llawn beth yw'r sefyllfa ynghylch digartrefedd yn y Sir a diffygion a bylchau'r gwasanaeth.
- Mae'n cyflawni gofynion Llywodraeth Cymru i gael strategaeth yn ei lle erbyn 1 Ebrill 2022.
- Mae'n helpu i lywio cynllunio a chomisiynu yn y dyfodol.
- Mae'n cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor i sefydlu strategaeth ar ddigartrefedd.
- Mae'n parhau gyda thrawsnewid digartrefedd yn Sir Fynwy – yn syml i wasanaeth sydd â mwy o lety i'r digartref, ystod ehangach o lety i'r digartref, llety o safon ac ansawdd uwch ac ystod uwch ac ehangach o gymorth tai.
- Bydd y strategaeth yn cyfrannu at y nodau llesiant, yn neilltuol nod Cymru Lewyrchus a bydd ganddo effaith gadarnhaol ar y nodweddion gwarchodedig ac ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Negyddol**

Nid yw'r cyllid gofynnol i gyllido holl strategaeth ar gael adeg ysgrifennu hyn. bydd angen dynodi cyllid i gyflawni rhai o agweddau'r strategaeth.

## 6 Gweithredu, monitro a'n adolygu'r Strategaeth Gweithio gyda Phartneriaid

6.1.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod dyletswydd statudol ganddo i atal a lliniaru digartrefedd o fewn y Sir, ond bydd angen i nifer o fudiadau i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau a fydd yn medru gweithredu blaenoriaethau'r Strategaeth.

6.1.2 Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau statudol a'r rhai na sy'n statudol er mwyn medru defnyddio adnoddau yn effeithiol a'n sicrhau canlyniadau effeithiol.

---

[52] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.3.2

[53] (Cyngor Sir Fynwy, 2022); 11.1.6.2

## 6.2 Ffynonellau Cyllid

Er mwyn medru gweithredu'r Strategaeth hon, bydd y Cyngor yn ceisio cael mynediad at y ffynonellau cyllid canlynol a'n manteisio i'r eithaf arnynt

### 6.2.1 Refeniw

- Cronfa Caledi Covid Llywodraeth Cymru hyd at 31ain Mawrth 2022 i gefnogi'r ddibyniaeth gyfredol ar ddarpariaeth Gwely a Brecwast a'r angen i ddarparu gwasanaeth ‘concierge’
- Grant Cymorth Tai – ariannu gwasanaethau ataliaeth a chymorth tai a llety â chymorth
- Mae cyllid Refeniw Tîm Opsiynau Tai yn cynnwys:
    - Cronfa Ataliaeth Digartref
    - Cyllideb Ar Les Preifat
- Grant Caledi Tenantiaeth Llywodraeth Cymru
- Cyllid Cynllun Ar Les Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
- Benthyciadau Cyllid Gorfodi ym maes Eiddo Gwag Llywodraeth Cymru
- Taliadau Tai Disgresiyniol er mwyn cefnogi'r gwaith o atal digartrefedd to
- Refeniw Gwasanaethau Plant er mwyn cyfrannu at ddarparu llety i bobl ifanc sydd ag anghenion isel i uchel
- Incwm rhentu gan lety dros dro
- Cyfraniadau A106 er mwyn cefnogi perchnogion sector preifat

### 6.2.2 Cyfalaf

- Grant Tai Cymdeithasol
- ENABLE – cyllid addasu i'r anabl
- Benthyg darbodus posib i'r awdurdod lleol
- Defnydd posib o asedau cyfalaf ychwanegol yr awdurdod lleol

6.2.3 Ar adeg y mabwysiadu, nid yw'r Cyngor wedi nodi'r holl adnoddau sydd angen er mwyn cynnig y ddarpariaeth angenrheidiol i ateb y galw o ran digartrefedd, sef y galw cyfredol a'r hyn sydd i'w ragweld. Er enghraifft, y refeniw i ariannu Llety â Chymorth Tai ag Anghenion Amrywiol. Bydd felly'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor i barhau i adnabod adnoddau er mwyn medru ariannu'r Strategaeth hon yn llawn.

6.2.4 Mae'r Grant Cymorth Tai yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth. Mae'r ddogfen Datganiad o Anghenion yn darparu dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau yn Sir Fynwy.

6.2.5 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid er mwyn gwneud cynnig am gyllid allanol os oes yna gyfleoedd i wneud hyn.

## 6.3 Trefniadau monitro, adolygu a gwerthuso

6.3.1 Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn ganlyniad i nifer o ymarferion ymgynghori gyda'n rhanddeiliaid, sydd wedi dylanwadu ar weledigaeth a blaenoriaethau'r Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael gyda digartrefedd o fewn Sir Fynwy.

6.3.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio nifer o sianeli er mwyn monitro'r Strategaeth. Y brif sianel fydd Grŵp Gweithredol CCG a GCT Sir Fynwy ar gyfer monitro'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn chwarterol er mwyn pennu'r cynnydd sydd yn cael ei wneud er mwyn cyflawni'r amcanion a chwrdd â'n targedau a'r canlyniadau[58]. At hyn, bydd yna adolygiad cynhwysfawr yn cael ei adolygu hanner ffordd drwy gyfnod y cynllun.

6.3.3 Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw, sydd yn golygu bod y Grŵp Gweithredol yn medru mynd i'r afael gyda unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen.

6.3.4 Bydd yna lefel ychwanegol o fonitro yn cael ei gynnal drwy gyfrwng strwythur craffu Sir Fynwy a'r Fforwm Tai Strategol sydd newydd ei weithredu.

# 7 Llyfryddiaeth


Cyngor Sir Fynwy. (2022). *Datganiad o Angen.*


---

[58] Gweler Atodiad 1: CYLCH GORCHWYL; Grŵp Gweithredol Plant a Chymunedau- Cymorth Tai

## Cynllun Gweithredu Stratgaeth Darpariaeth Cymorth Tai a Digartrefedd 2022 - 2026

| **Blaenoriaeth Un: Adnabod y rhai hynny sydd mewn peryg o ddigartrefedd ynghynt a darparu ymyriadau amserol er mwyn atal digartrefedd rhag digwydd.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y camau gweithredu sydd angen er mwyn gweithredu'r flaenoriaeth** | **Person Arweiniol** | **Amserlen / Erbyn pryd** | **Canlyniadau/Allbynnau** |
| **1.1** Ymchwilio sut i gynyddu'r nifer o aelwydydd sydd yn defnyddio'r gwasanaeth ynghynt, a thrwy hynny'n lleihau'r nifer o aelwydydd sydd yn profi argyfwng | Swyddog Strategaeth a Pholisi | Parhaus tan 31/03/26 | Symud at wasanaeth mwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol ac felly'n lleihau'r nifer o bobl sydd yn dod atom mewn argyfwng<br><br>Yn gwahaniaethu rhwng ataliaeth cynradd, ataliaeth eilaidd ac ataliaeth trydyddol<br><br>Ystyried yr angen am Ail-gartrefi Brys |
| **1.2** Adolygu'r wybodaeth gan y gwasanaethau digartrefedd er mwyn sicrhau biod gwybodaeth eglur a hawdd ei deall ar gael er mwyn helpu atal digartrefedd ar y cyfle cynharaf posib. | Swyddog Strategaeth a Pholisi – Digartrefedd | 31/03/23 | Cynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau tai a hygyrchedd y wybodaeth<br><br>Diweddaru tudalennau gwe<br><br>Paratoi wybodaeth benodol ar gyfer pobl ifanc |
| **1.3** Yn sicrhau bod Protocol Sir Fynwy ar gyfer y Sawl Sy'n Gadael Gofal a Phobl Ifanc yn gyfredol a bod yr holl bartïon sydd yn rhan ohono yn cydymffurfio gyda'r protocol e.e. sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol | Rheolwr Tim Opsiynau Tai | 31/03/23 | Yn cynnig llwybr sydd wedi ei reoli ar gyfer y sawl sydd yn gadael gofal a phobl ifanc er mwyn eu helpu i ddod o hyd i lety priodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.4** Gweithio ar y cyd gyda chydweithwyr er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai sydd mewn risg o ddigartrefedd drwy'r Ymgyrch Mynd i'r Afael â Thlodi sy'n cael ei datblygu gan y Cyngor. | Swyddog Strategaeth a Pholisi – Digartrefedd | 31/03/23 | Darparu dull o weithio sydd wedi ei gynllunio tuag at atal digartrefedd a'r opsiynau tai |
| **1.5** Parhau i fuddsoddi yn y gwaith atal digartrefedd i fyny'r gadwyn mewn lleoliadau addysg gan gynnwys y rhwydweithiau teuluol ehangach | Rheolwr<br>Mentergarwch Ieuenctid | Parhaus tan 31/03/2026 | Lleihau'r nifer o achosion o ddigartrefedd yn y dyfodol drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r opsiynau tai a hygyrchedd y wybodaeth. A'n meddu ar lwybrau tai sy'n eglur |
| **1.6** Adolygu'r arferion o wahardd unigolion o dai cymdeithasol. | Swyddog Strategaeth a Pholisi – Tai Fforddiadwy | 31/03/2023 | Yn hwyluso'r opsiynau "symud ymlaen" er mwyn sicrhau nad yw'r rhai hynny sydd angen tai cymdeithasol fwyaf yn cael eu gwahardd mewn modd afresymol: a bod cefnogaeth ar gael i fynd i'r afael gyda'r hyn sydd yn achosi gwaharddiadau |
| **1.7** Ceisio dod o hyd i gyllid a'n buddsoddi mewn adnoddau yn uniongyrchol er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol gydag aelwydydd sydd yn cael eu hystyried yn grwpiau risgiau uchel fel:<br>○ Iechyd Meddwl.<br>○ Pobl Ifanc.<br>○ Camddefnyddio sylweddau | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>a<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan 13/03/2026 | Yn osgoi gosod unigolion mewn llefydd anaddas a'n lleihau'r nifer o drefniadau sydd yn chwalu |
| **1.8** Yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg wybodaeth er mwyn dal a dadansoddi data i adnabod cyfleoedd a gwella'r gwaith cynllunio. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan 31/03/23 | Yn rhoi adroddiadau cyson ar dueddiadau digartrefedd a phrif achosion digartrefedd i'r Grŵp Cymorth Tai a Digartrefedd |
| **1.9** Yn datblygu defnydd gwell o dechnoleg a rhannu | Rheolwr Tai a | 31/03/23 | Yn defnyddio Locata yn llawn er mwyn gwella |

| | | | |
|---|---|---|---|
| data er mwyn dadansoddi a chynllunio. | Chymunedau<br>a<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | | effeithlonrwydd a'n creu adroddiadau monitro cyson.<br><br>Datblygu system rhentu ar gyfer Tai Gosod Sir Fynwy<br><br>Esblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu strwythuro mewn ffordd sydd yn diwallu anghenion y sawl sydd o dan fygythiad digartrefedd e.e. defnyddio TEAMs; WhatsApp ayyb |
| **1.10** Yn ystyried cyd-leoli gwasanaethau er mwyn darparu asesiad anghenion holistaidd a'n cefnogi'r broses gynllunio a'n creu pwynt cyswllt sengl ar gyfer pob aelwyd sydd yn wynebu digartrefedd. | Rheolwr Tîm Opsiynau Tai | | Yn darparu amgylchedd lle y mae modd rhannu arbenigedd yn fwy effeithiol ac effeithlon a'n cynnig profiad gwell i aelwydydd sydd mewn risg o ddigartrefedd |
| **1.11** Yn ymgorffori Amgylchedd sydd yn Ystyriol Gyflwr Seicolegol fel rhan o'r gwasanaeth digartrefedd. | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>&<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | 31/03/26 | Sicrhau lefelau uwch o fodlonrwydd ymhlith defnyddwyr cleient a'n meddu ar ddealltwriaeth well o'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan ddigartrefedd<br><br>Darparu cymorth i'r staff<br><br>Adlewyrchu manylebau gwasanaeth ar gyfer comisiynu yn y dyfodol |
| **1.12** Yn datblygu Cynllun Gweithredu Digartrefedd er mwyn sicrhau bod modd mynd i'r afael gydag anghenion pobl. | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>&<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | 31/03/23 | Esblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu strwythuro mewn ffordd sydd yn diwallu anghenion y sawl sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n ddigartref |

| Blaenoriaeth Dau: Darparu cymorth amserol ac effeithiol i drigolion bregus gan gynnwys y sawl sydd ag anghenion uchel a chymhleth. | | | |
|---|---|---|---|
| **Y camau gweithredu sydd angen er mwyn gweithredu'r flaenoriaeth** | **Person Arweiniol** | **Amserlen / Erbyn pryd** | **Canlyniadau/Allbynnau** |
| **2.1** Yn ceisio ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn nodi'r adnoddau ychwanegol i gynyddu'r capasiti ar gyfer y rhaglen cymorth tai ac argaeledd y cymorth er mwyn diwallu anghenion lleol. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan<br>31/03/26 | Y gallu i fynd i'r afael â'r anghenion yn y Datganiad o Anghenion<br><br>Partneriaethau cydweithredol yn hwyluso pecynnau cyllid cyfun. |
| **2.2** Yn ceisio ehangu'r gwasanaeth 'Housing First' i fynd i'r afael gydag anghenion sydd heb eu diwallu. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan 31/03/26 | Gwella'r daith y mae pobl yn profi wrth symud i lety addas parhaol |
| **2.3** Yn ceisio eangu'r gwasanaeth cymorth fel bo'r angen ar gyfer Pobl Ifanc ac ail-fodelu'r tai a rennir er mwyn cynyddu argaeledd y llety sydd ar gael yn benodol i bobl ifanc. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | 31/03/23 | Gwella'r daith y mae pobl yn profi wrth symud i lety addas parhaol |
| **2.4** Adolygu a gwerthuso'r llety i Bobl Ifanc sydd newydd ei ail-fodelu o ran y canlyniadau sydd wedi eu sicrhau ar gyfer y sawl sydd ag anghenion uchel ac ystyried a oes angen model 'Housing First' ar gyfer Pobl Ifanc. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | 31/03/23 | Gwella'r daith y mae pobl yn profi wrth symud i lety addas parhaol |
| **2.5** Cynyddu cyflenwad y llety yn y Sir ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth a'n ymwneud gyda chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. | Swyddog Strategaeth a Pholisi – Tai Fforddiadwy<br>& | 31/03/23 | Dod o hyd i gyllid refeniw sydd yn sefydlu tai â chymorth ar gyfer anghenion amrywiol yn y gogledd a'r de |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | | |
| **2.6** Yn ceisio cysylltu gyda Gofal Cymdeithasol er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer y sawl sydd yn niwroamrywiol | Swyddog Stratgaeth a Pholisi – Tai Fforddiadwy<br>&<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | 31/03/2023 | Gwasanaeth digartrefedd sydd yn diwallu anghenion pobl ac yn eu helpu i wella'r gwaith o atal digartrefedd a lleihau'r nifer o drefniadau sydd yn chwalu.<br><br>I'w ymgorffori i mewn i ddatblygu Cynllun Pontio Ail-gartrefu Brys |
| **2.7** Yn adolygu, gwerthuso a'n ail-gomisiynu gwasanaethau Grant Cymorth Tai erbyn Ebrill 2023. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg,<br>Rheolwr Datblygu Cymorth Tai a Gweithrediadau | 31/3/23 | Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion a gofynion aelodau mwyaf bregus ein cymuned |
| **2.8** Adolygu'r 'Place Based Teams' gyda'r nod o ail-gomisiynu gwasanaethau o'r 1/4/23 | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg,<br>Rheolwr Datblygu Cymorth Tai a Gweithrediadau | 31/3/23 | Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion a gofynion aelodau mwyaf bregus ein cymuned |
| **2.9** Adolygu Pobl Ifanc sydd mewn Llety Dros Dor gyda'r nod o ddatblygu contract Pobl Ifanc ar gyfer Llety Dros Dro o'r 1/4/23 | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg,<br>Rheolwr Datblygu Cymorth Tai a Gweithrediadau | 31/3/23 | Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion a gofynion aelodau mwyaf bregus ein cymuned |
| **2.10** Yn adolygu'r Cynllun Llety Dros Dro / Adsefydlu gyda'r nod o ail-fodelu neu ail-gomisiynu'r gwasanaethau o'r 1/4/23 | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg,<br>Rheolwr Datblygu | 31/3/23 | Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion a gofynion aelodau mwyaf bregus ein cymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymorth Tai a Gweithrediadau | | |
| **2.11** Adolygu'r Allgymorth Penderfynol gyda'r nod o ail-fodelu neu ail-gomisiynu'r gwasanaethau o'r 1/4/23 | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg,<br>Rheolwr Datblygu Cymorth Tai a Gweithrediadau | 31/3/23 | Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion a gofynion aelodau mwyaf bregus ein cymuned |
| **2.12** Adolygu a gwerthuso'r canlyniadau o ail-fodelu llety pobl ifanc ar gyfer y sawl sydd ag anghenion isel i uchel | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg,<br>Rheolwr Datblygu Cymorth Tai a Gweithrediadau | 31/3/23 | Yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion a gofynion aelodau mwyaf bregus ein cymuned |
| **2.13** Ail-fodelu eiddo tai a rennir er mwyn cynnig darpariaeth benodol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion is | Rheolwr Tim Opsiynau Tai | 30/09/22 | Gwella darpariaeth llety penodol ar gyfer y bobl ifanc |

**Blaenoriaeth Tri: Cynyddu mynediad at ystod o ddatrysiadau tai fforddiadwy ac addas ar gyfer aelwydydd digartref, dros dro a pharhaol**

| **Y camau gweithredu sydd angen er mwyn gweithredu'r flaenoriaeth** | **Person Arweiniol** | **Amserlen / Erbyn pryd** | **Canlyniadau/Allbynnau** |
|---|---|---|---|
| **3.1** Adolygu pob defnydd o lety dros dro a lleihau ein dibyniaeth ar hyn dros gyfnod y strategaeth. | Rheolwr Tai a Chymunedau | Parhaus tan 31/03/26 | Lliniaru yn erbyn gwariant anghynaladwy a dibyniaeth ar gyllid gan Lywodraeth Cymru a Gwely a Brecwast a gwasanaethau 'concierge' a defnyddio Swyddogion Llety sy'n ffocysu ar Wely a Brecwast<br><br>Caffael gwasanaeth diogelwch<br><br>Adnabod technoleg amgen ar gyfer Swyddogion Llety Dros Dro sydd mewn lleoliadau Gwely a Brecwast |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.2** Parhau i gydlynu'r Fforwm Tai Strategol sydd newydd ei sefydlu gyda phartneriaid cymdeithasau tai er mwyn datblygu tai fforddiadwy. | Rheolwr Cymunedau Tai | Parhaus tan 31/03/26 | Sicrhau bod cynifer ag sydd yn bosib o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu a gwariant Grantiau Tai Cymdeithasol. |
| **3.3** Gweithio gyda phartneriaid 'Homesearch' er mwyn sicrhau cynifer ag sydd yn bosib o lefydd gwag mewn tai cymdeithasol sydd ar gael i aelwydydd digartref. | Polisi Strategol Tai Fforddiadwy | Parhaus tan 31/03/26 | Cynyddu'r nifer sydd yn symud i lety parhaol |
| **3.4** Gweithio gyda'r partneriaid 'Homesearch' er mwyn cymryd camau er mwyn gwneud y 'defnydd gorau' a'n manteisio ar y stoc er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn medru symud ymlaen o fyw mewn llety dros dro. | Polisi Strategol Tai Fforddiadwy | Parhaus tan 31/03/26 | Darparu mwy o opsiynau ar gyfer y sawl sydd mewn risg o ddigartrefedd<br><br>Targedu aelwydydd/trosglwyddo trigolion sydd yn gorlenwi llety un ystafell er mwyn creu mwy o le yn y fath lety<br><br>Defnyddio'r stoc tai presennol ar gyfer llety a rennir<br><br>Ail-ddylunio'r llety presennol |
| **3.5** Ystyried opsiynau tai amgen fel unedau masnachol sydd yn cael eu haddasu a thai modiwlar | Polisi Strategol Tai Fforddiadwy | Parhaus tan 31/03/26 | Sicrhau cynifer o opsiynau ag sydd yn bosib i greu tai fforddiadwy |
| **3.6** Gwerthuso'r cyfleoedd sydd gan y Cyngor i fanteisio ar asedau sydd yn berchen i'r Cyngor at ddibenion digartrefedd a'n ystyried opsiynau gyda'r cyrff cyhoeddus eraill. | Polisi Strategol Tai Fforddiadwy a Rheolwr Datblygu | 31/03/26 | Sicrhau cynifer o opsiynau ag sydd yn bosib i greu tai fforddiadwy |
| **3.7** Gwerthuso'r opsiwn o brynu eiddo ar y farchnad rydd ar gyfer llety i'r digartref ac ystyried yr opsiwn o bartneriaethau fel modd o'u rheoli | Polisi Strategol Tai Fforddiadwy | 31/03/26 | Sicrhau cynifer o opsiynau ag sydd yn bosib i greu tai fforddiadwy |
| **3.8** Cynyddu'r ddarpariaeth o fathau eraill o lety dros dro gydag ystod o landlordiaid, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat, a'n sicrhau unedau ychwanegol o ran llety dros dro, mynediad uniongyrchol a thai â chymorth. | Polisi Strategol Tai Fforddiadwy | Parhaus tan 31/03/26 | Lleihau'r nifer o nosweithiau – gymaint ag sydd yn bosib - pan fydd unigolion mewn llety drud<br><br>Sefydlu llety teuluol hunangynhaliol brys yn y Gogledd.<br><br>Ail-fodelu'r eiddo tai a rennir presennol er mwyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darparu darpariaeth benodol i bobl ifanc<br><br>Yn sicrhau bod modd rheoli'r costau llety dros dro ar ran y Cyngor er mwyn darparu llety gwell<br><br>Dod o hyd i gyfleoedd i ail-ddylunio'r tai cymdeithasol presennol |
| **3.9** Datblygu llwybrau effeithiol i ac o'r llety dros dro gan sicrhau fod pobl yn symud ymlaen mewn modd amserol. | Rheolwr Tîm Opsiynau Tai | Parhaus tan 31/03/26 | Ennyn dealltwriaeth well o'r cyfnod aros sydd yn medru amrywio a'r rhwystrau sydd yn atal pobl rhag symud ymlaen. |
| **3.10** Adolygu a gwerthuso Tai Gosod Sir Fynwy er mwyn adnabod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth ac annog mwy o landlordiaid preifat i gynnig eu heiddo i'r Cyngor. | Rheolwr Tîm Opsiynau Tai | Parhaus tan 31/03/26 | Cofrestru gyda Chynllun Gosod Cenedlaethol Llywodraeth Cymru |
| **3.11** Sefydlu llety hunangynhaliol brys yng Ngogledd y Sir. | Rheolwr Cymunedau a Thai | 31/03/24 | Gwella'r ddarpariaeth i deuluoedd i gwrdd â safonau llety Llywodraeth Cymru |
| **3.12** Yn ceisio sefydlu cysylltiadau gyda mudiadau gwirfoddol lleol ac eglwysi/grwpiau ffyrdd lleol er mwyn datblygu gwasanaethau newydd | Rheolwr Cymunedau a Thai | Parhaus tan 31/03/26 | Darparu llety sector preifat ychwanegol |
| **3.13** Gweithredu Cynllun Gweithredu ar gyfer Eiddo Gwag er mwyn targedu cartrefi gwag a chanol y trefi | Swyddog Polisi a Strategaeth - Digartrefedd | Parhaus tan 31/03/26 | Darparu llety sector preifat ychwanegol<br><br>Cysoni, lle bo'n bosib, gyda'r Grant Tai Cymdeithasol. |
| **3.14** Yn datblygu defnydd arloesol o'r cyfraniadau A106 er mwyn adeiladu tai fforddiadwy ychwanegol | Swyddog Polisi a Strategaeth - Digartrefedd | Parhaus tan 31/03/2026 | Darparu llety ychwanegol sydd wedi ei hwyluso gan wneud defnydd o'r cyfraniadau A106 fel adnodd ychwanegol |
| **3.15** Ystyried a gwerthuso'r achos busnes er mwyn adnabod unrhyw sgôp posib i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lle y mae yna faterion yn ymwneud gyda hyfywedd yn effeithio ar eu gallu i ddatblygu neu gadw gafael ar dai fforddiadwy | Swyddog Polisi a Strategaeth – Tai Fforddiadwy | 31/03/23 | Yn sicrhau cynifer o opsiynau ag sydd yn bosib ar gyfer tai fforddiadwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **3.16** Ystyried a gwerthuso’r potensial ar gyfer defnyddio’r model tai cydweithredol fel cyfrwng ychwanegol ar gyfer darparu tai fforddiadwy. | Swyddog Polisi a Strategaeth – Tai Fforddiadwy | 31/03/24 | Yn sicrhau cynifer o opsiynau ag sydd yn bosib ar gyfer tai fforddiadwy |

| **Blaenoriaeth Pedwar: Sefydlu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y camau gweithredu sydd angen er mwyn gweithredu’r flaenoriaeth** | **Person Arweiniol** | **Amserlen / Erbyn pryd** | **Canlyniadau/Allbynnau** |
| **4.1** Mae angen gweithredu cyfarwyddyd polisi Llywodraeth Cymru a sefydlu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. | Rheolwr Tai a Chymunedau | Medi 2022 | Cynllun drafft i’w sefydlu erbyn Mehefin 2022 |

| **Blaenoriaeth Pump: Manteisio i’r eithaf a chynyddu ar argaeledd ac effeithiolrwydd yr adnoddau ariannol, staffio/gweithlu a’r adnoddau cydweithredol sydd ar gael ar gyfer mynd i’r afael gyda digartrefedd.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y camau gweithredu sydd angen er mwyn gweithredu’r flaenoriaeth** | **Person Arweiniol** | **Amserlen / Erbyn pryd** | **Canlyniadau/Allbynnau** |
| **5.1** Adolygu a gwerthuso’r holl strwythurau staff y timau sydd yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu capasiti digonol ac yn parhau’n addas i’r diben. | Rheolwr Tai a Chymunedau | 31/03/23 | Yn cefnogi staff, manteisio i’r eithaf ar gapasiti, gwella effeithiolrwydd a’n manteisio i’r eithaf ar hyblygrwydd |
| **5.2** Gwella’r gweithdrefnau er mwyn caniatáu partneriaid i weithio gyda’i gilydd yn llwyddiannus e.e. rhannu gwybodaeth, mecanweithiau atgyfeirio | Rheolwr Tai a Chymunedau | Parhaus tan 31/03/26 | Symleiddio prosesau fel bod asiantaethau yn medru gweithio yn fwy hawdd ac effeithiol gyda’i gilydd, a thrwy hynny’n creu profiad gwell i’r sawl sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd |
| **5.3** Dod o hyd i gyllid ar gyfer yr amcanion a’r nodau hynny lle nad oes yna gyllid wedi ei glustnodi eto. | Rheolwr Tai a Chymunedau a | Parhaus tan 31/03/26 | Mynd i’r afael gyda’r anghenion sydd wedi eu nodi yn y Datganiad o Anghenion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | | |
| **5.4** Symud ymlaen o’r trefniadau tymor byr a sefydlwyd yn gyflym yn sgil y Pandemig Covid Pandemig ac mewn ymateb i ganllawiau’r Llywodraeth Cymru i ddatrysiadau hirdymor mwy cynaliadwy . | Rheolwr Tai a Chymunedau | 31/03/23 | Lliniaru yn erbyn y defnydd o Wely a Brecwast a gwasanaethau ‘concierge’ yn hytrach na thai â chymorth |
| **5.5** Byddwn yn cydweithredu yn fewnol a’n allanol gyda mudiadau sydd yn cynnig ystod eang o sgiliau a gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad er mwyn mynd i’r afael gyda digartrefedd yn llwyddiannus. | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>a<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan 31/03/26 | Manteisio i’r eithaf ar adnoddau mewnol ac allanol, gyda phwyslais arbennig ar gynyddu’r gwasanaeth ataliaeth digartrefedd a chynyddu’r cyfleoedd i sicrhau llety. |
| **5.6** Byddwn yn datblygu’r Fforwm Cymorth Tai a Digartrefedd. | Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg<br>a<br>Rheolwr Cymorth Tai a Gweithrediadau | 31/03/26 | Ymgysylltu yn bositif ac yn rhagweithiol gyda darparwyr cymorth tai er mwyn sicrhau bod cymaint o ddarpariaeth tai ag sydd yn bosib ar gael |
| **5.7** Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd a chost-effeithlonrwydd defnyddio dadansoddiad o’r data er mwyn atal digartrefedd. | Swyddog Strategaeth a Pholisi – Digartrefedd | 31/03/23 | Penderfynu a oes modd defnyddio dull awtomatig a fyddai’n arwain at arbedion |
| **5.8** Cynnal archwiliad o anghenion hyfforddi a sefydlu rhaglen o hyfforddiant er mwyn cefnogi staff i ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau, yn enwedig o ran camddefnyddio sylweddau, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol (VAWDASV) | Rheolwr Tai a Chymunedau | 31/12/22 | Cynyddu ymwybyddiaeth staff, gwella datblygiad proffesiynol ac atgyfnerthu arferion gorau |
| **5.9** Cydweithredu yn fewnol a’n allanol gyda mudiadau sydd yn cynnig ystod eang o sgiliau a gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad er mwyn mynd i’r afael gyda digartrefedd yn llwyddiannus. | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>a<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan 31/03/26 | Manteisio i’r eithaf ar y capasiti, gwella effeithlonrwydd a hyblygrwydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5.10** Cefnogi a'n datblygu staff o ran mabwysiadu a chynnal Amgylchedd Sy'n Ystyried o Gyflwr Seicolegol / Trawma. | Rheolwr Tai a Chymunedau | 31/03/23 | Byddwn yn trefnu hyfforddiant ar gyfer staff<br><br>Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu cynnal er mwyn gweithredu hyn |
| **5.11** Adnabod cyfleoedd i wella'r trefniadau cydlafurio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>a<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | 31/03/23 | Llety a/neu gymorth ychwanegol ar gyfer y sawl sydd yn meddu ar angen o ran digartrefedd ac iechyd, yn enwedig iechyd meddwl |
| **5.12** Ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran y trefniadau yn y dyfodol er mwyn cysoni hyn gydag anghenion y digartref yn Sir Fynwy | Rheolwr Tai a Chymunedau<br>a<br>Rheolwr Strategol Cyllid Hyblyg | Parhaus tan 31/03/26 | Mynd i'r afael gyda'r anghenion sydd wedi eu nodi yn y Datganiad o Anghenion |
| **5.13** Adnabod cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau ar gyfer y digartref a datrysiadau er mwyn cefnogi blaenoriaethau strategol ehangach. Er enghraifft, anghenion Gofal Cymdeithasol, mynd i'r afael gyda eiddo gwag, adfywio Canol y Dref a datgarboneiddio. | Rheolwr Tai a Chymunedau | Parhaus tan 31/03/26 | Diwallu anghenion pobl ddigartref a chyfrannu at werth ychwanegol (e.e. buddion cost) o ran y blaenoriaethau strategol eraill |
| **5.14** Gweithredu'r Bartneriaeth Tai Strategol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gefnogi a chyfrannu at flaenoriaethau'r Strategaeth hon | Prif Swyddog – Cymunedau a Lle | Parhaus | Mwy o gyfleoedd i hwyluso a datblygu llety ychwanegol ar gyfer y digartref |

Atodiad 1

**CYLCH GORCHWYL**

**Grŵp Gweithredol**

**Plant a Chymunedau-Cymorth Tai**

**DIBEN**

Mae'r Grŵp Gweithredol Plant a Chymunedau-Cymorth Tai yn ymgymryd gyda chyfrifoldeb statudol y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn unol gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymdeithasol 2014 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sydd yn cynnwys strategaethau ar gyfer Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd Plant a Phobl Ifanc.

Wrth ymateb i ganfyddiadau'r adolygiadau blaenorol, yr asesiad lles a'r amcanion ar draws y sir, roedd BGC Sir Fynwy wedi sefydlu Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc (PSPPI) sydd yn cynnwys uwch swyddogion o nifer o fudiadau aml-asiantaeth. Un o swyddogaethau allweddol y CCHSEG yw cefnogi'r PSPPI i gysoni'r holl ffynonellau cyllid (statudol, craidd a grant) er mwyn diwallu anghenion teuluoedd a phlant ar draws y sir, gan sicrhau bod modd mynd i'r afael ag unrhyw fwlch mewn darpariaeth a gwasanaethau. Bydd y Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Cymorth Tai hefyd yn dod yn rhan hanfodol o waith y bartneriaeth hon, a'r amcanion strategol ehangach, er mwyn diwallu'r anghenion a mynd i'r afael gyda'r heriau ar draws y sir. Ni fydd y grant yn cael ei ddefnyddio er mwyn talu am wasanaethau craidd neu statudol ond er mwyn ychwanegu a gwella'r gefnogaeth sydd yn cael ei roi gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i deuluoedd a phlant.

Mae BGC Sir Fynwy wedi dirprwy'r cyfrifoldeb hwn i'r 'Grŵp Gweithredol Plant a Phobl Ifanc-Cymorth Tai' (GGPPICT).

Mae'r GGPPICT yn ymgymryd â'i swyddogaeth gyffredinol drwy gefnogi Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc yn Sir Fynwy drwy:

- Goruchwylio'r grant Plant a Chymunedau er mwyn medru mynd i'r afael gyda gofynion cymorth y plant ac oedolion mwyaf bregus yn ein cymunedau drwy gyfrwng ystod o ymyriadau cynnar, ataliaeth a mecanweithiau cymorth. Bydd yn ceisio lliniaru neu ddileu unrhyw anfantais sy'n wynebu pobl fregus er mwyn eu caniatáu i gael yr un cyfle mewn bywyd â phobl eraill, a thrwy hynny'n cyfrannu at Gymru fwy cydradd.
- Goruchwylio'r grant Cymorth Tai er mwyn mynd i'r afael gydag anghenion tai a chymorth tai ymhlith yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithasol drwy gyfrwng ystod o ymyriadau cynnar, ataliaeth a mecanweithiau cymorth. Bydd yn ceisio lliniaru neu ddileu unrhyw anfantais sy'n wynebu pobl fregus er mwyn eu caniatáu i gael yr un cyfle mewn bywyd â phobl eraill, a thrwy hynny'n cyfrannu at Gymru fwy cydradd. Yn sgil hynny, bydd y Grant Cymorth Tai yn ymwneud â chael mynediad at gartref a chynnal y cartref hwnnw.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli grantiau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Thelerau ac Amodau Llywodraeth Cymru.

- Yn hwb ar gyfer arfer gorau a syniadau arloesol o ran Ymgysylltu gyda'r Gymuned er mwyn llywio gweledigaeth hirdymor a'r gwaith o weithredu'r cynlluniau yn unol gyda dyhead Llywodraeth Cymru o ran Lles Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc, sef 'Cymru fwy cydradd'
- Yn sicrhau cysondeb o ran y cyfrifoldebau statudol a'r safonau a gytunir drwy weithio mewn parterniaeth gyda'r dulliau statudol, preifat a thrydydd sector
- Yn sicrhau bod mentrau cymunedol ac ymyriadau yn medru arddangos effaith a chanlyniadau
- Gweithio mewn partneriaeth i leihau'r nifer sydd yn profi Profiadau Adweithio adeg Plentyndod, fel trais yn y cartref neu gam-drin alcohol neu gyffuriau.
- Goruchwylio'r cynlluniau gwaith ar gyfer Grantiau Plant a Chymunedau a Chymorth Tai
- Yn darparu arweinyddiaeth a chymorth i'r holl is-grwpiau sydd yn rhan o'r CCHSEG
- Cynnal cysylltiadau gyda Llywodraeth Cymru
- Cynnal cysylltiadau Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Fynwy

**CEFNDIR**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus wrth galon yr asiantaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd. Yn sgil rôl arwain gydweithredol y BGC, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hwy fel fforwm priodol ar gyfer llunio ac adolygu blaenoriaethau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Mae BGC Sir Fynwy wedi mabwysiadu fel un o'i amcanion allweddol; ***Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i Blant a Phobl Ifanc***. Mae'r amcan yma yn cynnig ffocws eang o ddechrau bywyd person, o'r eiliad y maent yn cael eu geni i'w cyfnod fel oedolyn ifanc.

Mae'r holl grantiau yn cael eu darparu ar draws ystod eang o agendau partneriaeth o dan y BGC. Y partneriaethau aml-asiantaeth yw'r prif fecanwaith cyflenwi ar gyfer y blaenoriaethau ar draws y sir ac wedi eu goruchwylio gan y BGC a Bwrdd Rhaglen BGC, gan sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar gael yn cael eu targedu'n effeithiol ac yn unol gydag anghenion ar draws y sir.

Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn grŵp aml-asiantaeth ar gyfer uwch-swyddogion, gyda Chynrychiolwyr yn Brif Swyddogion ar draws Cyngor Sir Fynwy sydd yn gyfrifol am ffynonellau grant Plant a Chymunedau-Cymorth Tai o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae hon yn bartneriaeth allweddol o dan y BGC sydd yn goruchwylio sut y mae'r ystod eang o wasanaethau (statudol a'r rhai na sy'n statudol) yn cael eu llywio. Maent yn parhau i ymateb i'r heriau ar draws y sir; tra hefyd yn ymateb i'r materion newydd sydd yn dod i'r amlwg tra hefyd . yn cysylltu gyda grwpiau partner eraill sydd mewn lle gwell i gynnig cymorth, er enghraifft, Grŵp Sir Fynwy Mwy Diogel, sydd yn meddu ar y swyddogaeth Diogelwch Cymunedol, ar gyfer y sir.

O dan gyfarwyddyd BGC Sir Fynwy, mae'r CCHSEG yn dwyn rheolwyr a chynrychiolwyr allweddol o'r mudiadau sydd yn gyfrifol am lywio a'n gweithredu camau gweithredu'r CCHSEG a'r hyn sydd yn cyfrannu at Les Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc, sydd yn gyson gyda Blaenoriaethau BGC Sir Fynwy.

**AELODAETH**

| **DYNODIAD** | **MUDIAD** |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf | CSF – Cymunedau a Phartneriaethau |
| Cyfrifydd Ariannol | CSF – Cymunedau a Phartneriaethau |
| Rheolwr Tai a Chymunedau | CSF – Tai a Chymunedau |
| Rheolwr Cefnogi Pobl | CSF – Tai a Chymunedau |
| Rheolwr Dechrau'n Deg | CSF – Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant |
| Arweinydd Strategol Teuluoedd /Dechrau'n Deg | BIPAB |
| Rheolwr Gofal Plant a Chwarae | CSF – Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant |
| Rheolwr am Gymunedau am Waith a Mwy | CSF – Tai a Chymunedau |
| Rheolwr Cymunedau a Phartneriaethau | CSF – Cymunedau a Phartneriaethau |
| Gwasanaethau Plant – Rheolwr Gwasanaeth | CSF – Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**CADEIRYDD:** Bydd y Cadeirydd yn cael ei apwyntio gan aelodaeth 'Grŵp Gweithredol Plant a Chymunedau – Cymorth Tai'. Bydd Is-gadeirydd yn cael ei apwyntio'n flynyddol.

**AMLDER Y CYFARFODYDD**

Bydd y 'Grŵp Gweithredol Plant a Chymunedau – Cymorth Tai' yn cwrdd yn chwarterol. Bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn cael eu sefydlu er mwyn delio gyda darnau penodol o waith ar ran y grŵp.

**REPORTING ARRANGEMENTS**

Mae'r 'Grŵp Gweithredol Plant a Chymunedau – Cymorth Tai' yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn chwarterol ac fel sydd angen.

**DOLENNI STRATEGOL**

Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir Fynwy: https://www.monmouthshire.gov.uk/psb Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014:

## RHEOLI'R DDOGFEN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Wedi'i Ddiweddaru Diwethaf Gan:** | | **Rheswm:** | |
| **Wedi'i Ddiweddaru Diwethaf Gan:** | | **Rheswm:** | |
| **Wedi'i Ddiweddaru Diwethaf Gan:** | | **Rheswm:** | |